# DINESYDD


**MEHEFIN** **20c**

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1985

RHIF 116


# CROESO



AR RAN HOLL DDARLLENWYR cyson Y Dinesydd carem eich croesawu i Gaerdydd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 1985. Hyderwn y mwynhewch eich ymweliad a'r Brifddinas gymaint ag yr ydym ninnau, ei thrigolion, wedi mwynhau ein hymweliadau a'ch broydd chithau ar hyd y blynyddoedd.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un brysur yma yng Nghaerdydd, a hoffai'r Dinesydd ddiolch yn ddiffuant i bawb a roddodd yn hael o'u hamser i sicrhau llwyddiant yr Wyl - diolch o galon i chwi i gyd.

Y Dinesydd oedd papur bro cyntaf Cymru, ac ers ei sefydlu bu'n arloesi ar sawl achlysur - y Dinesydd Dyddiol a gyhoeddwyd yn Eisteddfod Genedlaethol 1978, a'r comic Ffwlbart a yn Eisteddfod Llanelwedd. Paratowyd y rhifyn arbennig hwn ar gyfer yr Eisteddfod. Diolch i chi am ei brynu - gobeithiwn y cewch flas ar ei ddarllen.

CYWYDD YN GWAHODD I
EISTEDDFOD YR URDD
CAERDYDD A'R CYLCH, 1985

Gwahoddiad a gyhoeddwn,
gwahoddiad i'r cread crwn,
i ddod yn dyrfa ddedwydd
yn gôr a dawns i Gaerdydd
a mwynhau cwmni a hwyl
yr ifanc yn ein Prifwyl.

Yn nyddiau mwyn diwedd Mai
deler, ar fenter, fintai
yma i bridd ein diddan
filltir sgwâr o bedwar ban.
Gwerddon i'n hiaith fydd gerddi
Soffia, a noddfa i ni.

Dewch â cherdd, baled a chân,
adrodd a chrefft, bob oedran;
dewch draw â gwaith llaw a llun,
alaw a phennill telyn,
i lawnt y castell yn wledd,
yn frodwaith o frwdfrydedd.

Daw rhai â gitâr a drwm,
arlwy o nwyd a bwrlwm
i adwy ein traddodiad,
cyffro'n arwyddo'n parhad,
canu roc yn rhoi acen
o'r newydd ar arwydd hen.

Pob dôr fydd yn agored,
drysau'n calonnau ar led,
a geiriau cyfeillgarwch
brodyr drwy'r awyr yn drwch.
Ein Dinas yn dihuno
a'r plant yn froliant y fro.

Emyr Lewis.

## TU MEWN:


Tud.3 Priodi yn Moscow.
Tud.4 Canu Dros Heddwch.
Tud.9 Croeso i'r Brifddinas!
Tud.10 Atodiad i'r plant.
Tud.12 Atgofion Gwilym Roberts.
Tud.17 Ble mae Cawsi Cribin?
Tud.21 Datganoli eto?
Tud.22 Dyrchafiad i'r Cymric!
Tud.23 Croesair y Dinesydd.

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr Y Dinesydd at:
Lynn Jones Ffon: 562816

MAI

28 - CLWB IFOR BACH
Croesawu'r Eisteddfod
Gwrp Gwerin o Bavaria
Mabsant

29 - CLWB IFOR BACH
Derec Brown a'r Racaracwyr
Treiglad Pherffaith

30 - CLWB IFOR BACH
Bwchadanas

31 - 'STEDDFOD '85
Noson cydwladol 7.30-9.00

31 - 'STEDDFOD '85
Dwylo Dros y Môr 9.30-11.30
Huw Chiswell, Geraint Griffiths, Caryl a'r Band, Maffia Mr.Huws.
Elw i Gronfa Ethiopia

31 - CLWB IFOR BACH
Disgo

MEHEFIN

1 - CLWB IFOR BACH
Geraint Jarman
(i'w gadarnahu)

2 - 'STEDDFOD '85
Neuadd Dewi Sant 8.00
Cymanfa Ganu

7 - CYMRODORION CAERDYDD
Festri Tabernacl 7.15
Cyfarfod Blynyddol

8 - CLWB IFOR BACH
Pererin Trydan

9 - CAPEL DERWEN DEG
Oedfa Anenwadol 4.00
Y Br.Illtyd Lewis

12 - CYMDEITHAS Y DYSGWYR
Tŷ'r Cymry 8.00

15 - CLWB IFOR BACH
Penderyn

17-19 - THEATR CHAPTER
Theatr Whare Teg
"Colli" gan Hazel Williams
"Drws Nesa" gan Jon Gower a Glyn Elwyn. 7.30

29 - CLWB IFOR BACH
Dafydd Iwan

GORFFENNAF

5 - CLWB IFOR BACH
Ar Log

14 - CAPEL DERWEN DEG
Oedfa Anenwadol 4.00
Y Parch.Raymond Williams

THEATR WHARE TEG

AR ÔL LLWYDDIANT eu cynhyrchiad "Y Siaced" mae Theatr Whare Teg yn cyflwyno perfformiad newydd! Dwy ddrama fer, newydd sbon sydd ganddynt - gan awduron sydd yn ysgrifennu i'r Theatr am y tro cyntaf: "Drws Nesa" gan Jon Gower a Glyn Elwyn; a'r llall "Colli...." gan Hazel Williams.

"DRWS NESA" Drama gegin - mae pawb yn hoff o rheini, ond.... mae rhywbwth erchyll yn y gefin. Ac yn yr ystafell fyw - dyn wedi cymeryd at ei soffa. Dim i'w wneud ond hel meddyliau a phoeni am y "Drws Nesa". Cyffuriau, trais, colomenod a marwolaeth - drama i'r holl deulu.

"Colli...." Cymerwch dair menyw. Mae dwy ohonynt â phroblem. Mae un ohonynt wedi datrys y broblem. Cymerwch ddyn sy' ddim yn deall y broblem, a dyna sylfaen drama gynraf Hazel Williams. Eleni enillodd Hazel gystadleuaeth ddrama BBC Cymru. Mae'n byw yng Nghwmtawe gyda'i gwr, dau o blant, cath a chwningen.

Y cyfarwyddwr fydd Islwyn Morris a Dorien Thomas. A'r actorion fydd Alun ap Brinley, Alun Elidir, Ernest Evans, Nia Medi, Menna Trysster ac Anest Wiliam.

Cewch weld y perfformiadau o'r dramau hyn yn Theatr y Chapter yng Nghaerdydd nos Lun, nos Fawrth a nos Fercher y 17-19 o Fehefin. Ac yna ar daith fer o amgylch de Cymru - yn Abertawe, Pen y Bont a Brynaman, amn weddill yr wythnos.


YN EISIAU:

Person i fod yn gyfrifol am weithgareddau'r Aelwyd - i weithio gyda phobl ifanc ar nosweithiau Gwener yng Nghanolfan yr Urdd

Am fanylion pellach, telerau ac ati cysylltwch ag Alan Gwynant Caerdydd: 36201



THEATR WARE TEG

Yn cyflwyno dwy ddrama fer:

"COLLI"
gan Hazel Williams
a
"DRWS NESA"
gan Jon Gower a Glyn Elwyn

THEATR Y CHAPTER

Mehefin 17 - 19, 7.30
Tocynnau: £3.50
£3.00 i aelodau Chapter
£2.00 i fyfyrwyr, y di-waith a phensiynwyr

Swyddfa Docynnau: 396061


# LLONGYFARCH

PENNAETH: Llongyfarchiadau i Emyr Daniel ar ei ddyrchafu'n bennaeth Adran Materion Cyfoes HTV. Bydd yn olynu Cenwyn Edwards, sy'n symud i'r Wuddgrug fel pennaeth y cwmni yng Ngogledd Cymru yn dilyn ymddeoliad Gwyn Erfyl.

---

Y GWEITHREDU'N DWYSAU: Yn ystod oriau man fore Sul, Mai 12, achoswyd difrod cyfyngedig i swyddfeydd Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru gan dri aelod o Senedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Dyma oedd y weithred ddifrifol gyntaf yn erbyn y Cyd-Bwyllgor yn ymgyrch y Gymdeithas dros Gorff Datblygu Addysg Gymraeg.

Gosodwyd y proclamasiwn canlynol yn y swyddfeydd: "Bellach mae Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru yn brif darget gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn yr ymgyrch dros Gorff Datblygu Addysg gymraeg. Mynnwn nad oes unrhyw fodd o gwbl i'r Cyd-Bwyllgor gyflawni swyddogaeth Corff Datblygu Addysg Gymraeg ac ystyriwn ymgais y Cyd-Bwyllgor i elwa ar yr ymgyrch yn gwbl annheilwng. Gofynnwn i'r Cyd-Bwyllgor gydnabod bod y gwaith hwn ymhell tu hwnt iddynt a galwn arnynt i gefnogi'r egwyddor o Gorff Datblygu Addysg Gymraeg. Hyd nes y digwydd hyn bydd Cymdeithas yr Iaith yn parhau i weithredu yn erbyn y Cyd-Bwyllgor".

Arestiwyd y tri, Walis Wyn George, 25 oed Trefnydd Cenedlaethol y Gymdeithas, Dyfed Wyn Edwards, athro 26 oed, o Rhosllannerchrugog, a Dafydd Freyling, myfyriwr 21 oed o Aberystwyth, ac fe'u cyhuddwyd o achosi difrod troseddol i eiddo'r Cyd-Bwyllgor. Wedi ymddangosiad byr yn Llys Ynadon Caerdydd fe'u rhyddhawyd ar fechniaeth.

Wythnos yng nghynt, wrth i 39 o aelodau'r Gymdeithas wynebu achos llys yn Abergele, cyhoeddodd y Gymdeithas ei bod yn atal unrhyw weithredu yn erbyn y Swyddfa Gymreig a'r llywodraeth, gan fod y swyddfa Gymreig yn ystyried cyfarfod a dirprwyaeth o gynrychiolwyr U.C.A.C., Mudiad Ysgoluon Meithrin, Merched y Wawr, Rhieni Dros Addysg Gymraeg a'r Gymdeithas.

---

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Gorffennaf/Awst at: Shân Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn Mehefin 20.


DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

# DWYLO DROS Y MÔR



DDENG MLYNEDD union yn ôl fe ymwelais i a chwmni bach dethol o Ferched y Wawr dan arweiniad Zonia Bowen â'r Undeb Sofietaidd. Deuthum yn ôl wedi fy nghyfareddu'n llwyr â gogoniannau celfyddydol ysblennydd Moscow, Leningrad a Kiev. Ychydig iawn feddyliais i y bryd hwnnw y baswn i'n dychwelyd i Foscow ar gyfer priodas fy merch.

Rhyw wythnos cyn Eisteddfod Llanbed y mentrodd Elin Wyn dorri'r newyddioin syfrdanol i'w rhieni ei bod hi â'i bryd ar briodi Volodia Kalenin - hanner Rwsiad, hanner Iddew o Foscow. Ddiwedd Tachwedd aeth ei thad a'i chwaer Catrin allan gyda hi i Foscow i gyfarfod y darpar fab/brawd yng nghyfraith. Daeth adroddiad ffafriol yn ôl!

O fis Awst ymlaen bu Elin Wyn a Volodia wrthi'n ddygn yn llenwi llwythi o ddogfennau swyddogol, yn llythyru ag adrannau tramor o lywodraeth y ddwy wlad, yn cyfarfod â phob math o rwystrau ar eu ffordd, ond yn y diwedd yn llwyddo i gael caniatad i briodi ar ddydd Mercher Ebrill 10 am hanner awr wedi pedwar y prynhawn mewn swyddfa priodasau ar gyrion Moscow.

Felly ar Sul y Pasg wele Glan a minnau, Heulwen fy chwaer yng nghyfraith a'i gŵr Bernard, Sian Pari Huws a Sian Elin Jenkins o'r BBC, Pauline (ffrind Elin Wyn o Lundain oedd yn medru Rwseg) a'i chariad yn cychwyn o Heathrow am y ddinas bell. Cyrraedd y pen draw yn llwythog - teisen briodas, hetiau, tisw o flodau sidan heb sôn am y bagiau a'r trugareddau i gyd!

Cael tipyn o drafferth wrth fynd trwy porth y visas gan i rywun twp roi fy llun i ar visa fy chwaer yng nghyfraith a'i llun hi ar fy visa i. Achosodd hyn helynt mawr a chawsom ein dwy ein martsio'n ddi-seremoni i ryw gornel o'r neilltu ac aros awr gyfan fan honno tan iddynt gywiro'r gwall ar ein dogfennau. Dyma ddechrau da meddwn!

Ond wedi mynd trwy'r pyrth yno yn ein haros yr oedd Volodia. Nawr rhaid cyfadde fy mod i wedi poeni llawer tybed faswn i'n cymryd ato pan gwrddwn i ag e. Sut un oedd e mewn gwirionedd? O'r funud gynta teimlais gynhesrwydd ac annwyldeb ei bersonoliaeth. Hoffais y llygaid treiddgar a'r wen fach chwareus trwy'r mwstash trwchus. Doedd rhyfedd yn y byd i Elin Wyn syrthio mewn cariad ag ef ac iddi fynnu goresgyn yr holl rwystrau a roddwyd ar eu ffordd er mwyn ei briodi!

Daeth dydd Mercher - dydd y briodas ac wedi brecwast mynd yn syth i salon moethus trin gwallt yn y gwesty. Aros am awr gyfan y fan honn heb i neb gymryd unrhyw sylw ohonof. O'r diwedd dyma wraig yn fy arwain i'r cwt ac yn wir i chi fe lwyddon ni gyda help dwylo i ddeall ein gilydd yn rhyfeddol. Y canlyniad oedd i mi ddod mas yn edrych fel brenhines.

Ar ôl cinio, mynd mewn tacsi i fflat y BBC ynghanol Moscow lle roedd Elin Wyn a'i ffrind Marian yn aros am yr wythnos (hyn drwy garedigrwydd Peter Ruff a Tim Sebastian, gohebwyr y BBC yn yr Undeb Sofietaidd).

Gwisgo, Dad yn tynnu lluniau, ac yna mynd allan i chwilio am dacsi i fynd â ni i'r briodas. Dim Rolls Royce gwyn yn rubannau i gyd, ond hen dacsi digon brwnt yr olwg a'n cludodd i'r swyddfa gofrestru. Anghofia i byth mo'r siwrne honno a'r gyrrwr yn gwau ei ffordd o lôn i lôn mewn traffig cyflym pedair lôn.

Cyrraedd y lle, ac yno yn ein haros roedd y ffrindiau o Gymru ac o'r Undeb Sofietaidd.

Edrychai Elin Wyn yn bictiwr yn ei gwisg sidan o liw hufen ysgafn a'i het steil Gainsboro. Yn wir, fe edrychai yn union fel un o'r merched yn nramau Chekov y mae ganddi gymaint o feddwl ohono.

Roedd rhieni Volodia yno, wedi teithio am 23 awr y diwrnod cynt ar y trên o Yalta. Gŵr a gwraig hawddgar dros ben ac yn amlwg wrth eu bodd gyda'u merch yng nghyfraith newydd. Fedren nhw ddim siarad gair o Saesneg mwy nag y medrwn ninnau air o Rwseg, ond gyda help Elin Wyn a Volodia a dwy o'n ffrindiau fe lwyddon ni i gyfathrebu yn hynod o dda.

Yn ystod seremoni fer, syml y briodas, fedrwn i ddim llai na chofio am y llu o ffrindiau, teulu a chydnabod oedd yn meddwl amdanom yn ystod y munudau hynny. Rhyfedd oedd absenoldeb gweinidog a gwasanaeth cysegredig ond roedd na sawl gweddi fach dawel ym mynwes rhai ohonom.

Aethom oddi yno i westy'r Berlin yng nghanol Moscow am wledd fendigedig o'r radd flaenaf, Elin Wyn yn llwythog o flodau. Un o arferion hyfryd y Rwsiaid ydy cyflwyno tusw o flodau sidan i'w mam-yng-nghyfraith ac felly mae un o greadigaethau hyfryd Alma Carter yn gorwedd mewn cwpwrdd gwydr yng nghartref Ludmilla Kalenin yn Yalta.


Noson i'w chofio oedd honno yng ngwesty'r Berlin. Yma roedd uchelwyr adeg y Czars yn dod, ac roedden nhw wedi llwyddo i gadw'r decor yn union fel yr oedd hi yn y cyfnod moethus hwnnw cyn y chwyldro.

Roedd pawb wedi dotio ar y deisen priodas, (cywaith celfydd dwy ffrind - Beti Lloyd o Aberteifi, a Julie Morse o Gaerdydd) - traddodiad dieithr yn Rwsia. Roedden nhw wedi dotio hefyd ar lais cyfareddol Geraint Gruffydd gan fod tâp "Madras" yn rhan o'r miwsig cefndir yn ystod y wledd.

Diwrnod i'w gofio heb os nag onibai, oedd dydd priodas Elin Wyn a Volodia. Does ond gobeithio y cawn ni cyn diwedd yr haf, gysegru'r briodas yn Ebeneser ac y cawn ni wledd briodasol arall i ddathlu ad-uniad y ddau yma yng Nghymru. Rhaid aros felly, yn amyneddgar, i'r awdurdodau Sofietaidd roi caniatad i Volodia adael y wlad, a dod yma i Gymru at ei wraig.

Yn y cyfamser da gen i ddweud ei fod, yn ei awydd i blesio ei fam yng nghyfraith, yn dysgu Cymraeg drwy gymorth "Catch Phrase" Cennard Davies! Synnwn i fawr na fydd e wedi llwyddo i feistroli'r iaith Gymraeg cystal ag y llwyddodd gyda'r Saesneg. Ond edrychwn ymlaen yn fawr at ei groesawu i'n plith. Brysied y dydd.

# CÔR HEDDWCH



"Golomen wen eheda dros ein byd
Boed heddwch rhwng dyn a dyn
Doed pob gwlad i barchu Duw
A dysgu byw'n gytun..."

GYDA'R GEIRIAU addas hyn agorwyd cyngherddau'r Côr Cydwladol Ieuenctid Dros Heddwch ym Mangor, Aberystwyth a Chaerdydd ddiwedd gwyliau'r Pasg eleni. Roedd teimlo'r wefr yn uno'r côr wrth i ni ganu, a gweld gwerthfawrogiad ein cynulleidfaoedd yn gwneud y deunaw mis o lafur yn werth pob ymdrech.

Wrth orffen ein taith yng nghapel Ebeneser Caerdydd a chanu fel côr am y tro olaf roedd hi'n anodd cofio'n ôl i'r amser hwnnw pan oedd y Côr Dros Heddwch yn ddim ond syniad delfrydol yn ennyn rhyw adwaith nawddogol tebyg i hyn gan y rhan fwyaf - "syniad da iawn - ond braidd yn anymarferol" ac yn fyw i neb ond i'r wyth o fyfyrwyr yn Aberystwyth a chnewyllyn bach, bach o gefnogwyr eraill.

"Mae bodolaeth Cymru a'r ddynoliaeth yn cael ei fygwth gan ryfel niwclear. Rhaid inni Gymry, ac ieuenctid Cymru ym arbennig, ymroddi â'n holl enaid i rwystro'r sataneiddiwch hwn, ac i achub ein cenedl a'r ddynoliaeth..."Geiriau'r Dr. Gwynfor Evans o'i araith "Cymru a Heddwch" a draddododd i gangen Plaid Cymru Pantycelyn, ac a ysbrydodd syniad y côr. Dyna'r her, a dyna fynd ati i wneud rhywbeth adeiladol dros heddwch.

Carreg filltir cyntaf y Côr oedd cael "logo" a phapur swyddogol. Y bil cyntaf o laweroedd yn cyrraedd "Swyddfa'r Côr Rhyngwladol" - ac i ni gael datgelu'r gyfrinach fawr i eisteddfodwyr yr Urdd, basged bicnic oedd y swyddfa ar sil ffenest fy stafell wely ym Mhantycelyn - ond dyna ni! Roedd rhaid rhoi argraff broffesiynol Er mai yn Sir Benfro mae fy ngwreiddiau dwi'n siwr y byddai unrhywun o Sir Aberteifi yn falch ohonof wrth weeld y dogni llym ar bapur y Côr. Rhaid oedd ysgrifennu pob llythyr ar ddarn o bapur sgrap cyn mentro gwneud camgymeriad ar ddalen swyddogol! Yn wir, mi dalodd ffordd o gynilo a gwario'n ofalus ac o ddisgo i ddisgo, o arwerthiant i gyngerdd, o rodd i rodd chwyddoidd y cyfrif banc yn araf ond yn gyson. Erbyn hyn, roedd yr Urdd wedi cytuno llogi Gwersyll Llangrannog i ni am yr wythnos 12-19 o Ebrill am rhyw £54 y pen. Y bwriad oedd dangos ewyllys da ieuenctid Cymru, ac felly roeddwn am wahodd ein cyfeillion di-enw yn rhad ac am ddim i Gymru - a gyda chostiau'r bysiau, llogi'r neuaddau, cerddoriaeth, pianos, y bwyd a'r llety, clustnodwyd y swm o £5,000 fel ein nod.

"Os bydd y Côr Cydwladol yn bosib", meddai Iona, un o'r trefnwyr, "yna mae popeth yn bosib." Ac yn wir, roedd wythnos o baradwys heddychlon ryngwladol i weld yn arswydus o bell i ffwrdd ar adegau. Yn enwedig ar yr adegau hynny pan fyddai'r post yn cyrraedd Panty gyda llythyron tebyg i hyn:

"Dear Miss Davies,

Although we highly commend your worthy project we are not in a position to offer you any financial support. Wishing you all the best with the choir for peace......"

Cynhwysion holl bwysig llwyddiant ffurfio'r Côr beth bynnag oedd optimistiaeth a ffydd mai trwy ddod a phobl o bob cenedl yn nes at ei gilydd, hyd yn oed os oes rhaid gwneud hynny fesul un ac un, yw'r ffordd sicraf i weld byd heddychlon. A sôn am frwdfrydedd, cawsom y fraint o gael Alun Guy yn arweinydd arnom, ac Annette Bryn Parry fel cyfeilyddes, ac fe ddaeth y ddau yn gwbl wirfoddol a rhoi o'u doniau a'u hamser i'n hyfforddi ni - Alun Guy hefyd oedd un o'r bobl prin a gredodd o'r cychwyn cynta' ein bod ni o ddifri'.

Mae gymaint o hanes i'w hadrodd - y llawenydd o dderbyn englyn odidog T.Arfon Williams i'r fenter, hwyl a helynt y croesawi yng ngorsaf Caerdydd wrth i'r aelodau droi o fod yn enwau ar bapur i fod yn wynebau cyfarwydd, y cymdeithasu ymhlith ein gilydd, a'r ffilmio i HTV yn Llangrannog, a'r parti ffarwel dagreuol. Ond gwell i mi nawr cyn cloi ddweud gair o ddiolch unwaith eto. Diolch o waelod calon i bawb a wnaeth y Côr yn bosib a rhoi hwb i frawdgarwch yn ein byd. Yn y Dinesydd yn naturiol, carwn ddiolch yn arbennig i bobl Caerdydd - swyddogion Capel Ebeneser, Mrs Tegwen Evans am rhoi menthyg y delyn i ni, i Iona Jones ac Elen ap Robert am ganu'r unawdau mor ardderchog, ac i bob ffrind a pherthynas a estynodd mor ddwfn a mor aml i'w pocedi.

MERERID DAVIES.

# AGORIAD SWYDDOGOL

YR OEDD HI'N ddiwrnod go arbennig yn hanes Ysgol Bro Eirwg, ddydd Mawrth, 30 ebrill, oherwydd dyna ddiwrnod agoriad swyddogol yr ysgol. Ysgol Bro Eirwg yw'r ddiweddaraf o'r pedair ysgol gynradd Gymraeg yn y brifddinas ac er mai eleni yr agorwyd hi'n swyddogol bu drysau'r ysgol yn agored ers Medi 1983.

Am 2.30 y prynhawn y bu'r agoriad. Y Cynghorydd Emyr Currie-Jones, Cadeirydd Pwyllgor Addysg De Morgannwg, oedd i agor yr ysgol, a daeth ef ynghyd â Mrs.Currie-Jones, ei briod, Mrs. Olwen Watkins, Cadeirydd y llywodraethwyr, Lyn Cule, Cyfarwyddwr Addysg De Morgannwg, ei ddirprwy a llu o gyfeillion yr ysgol ynghyd ar gyfer y seremoni.

Dechreuwyd y gweithgareddau gan Mrs.Watkins a fynegodd ei balchder yn y digwyddiad hwn a dymuniad yr Awdurdod Addysg i weld darpariaeth ar gyfer addysg Gymraeg. Fe'i dilynwyd gan Elfan Jones, y Prifathro. Mynegodd ei lawenydd mawr yn medru datgan yn hyderus mai ysgol yn ffynnu oedd Bro Eirwg er iddo ef a'i staff a'r rhieni ofni mai trengi fuasai'r ysgol hon oherwydd ei lleoli'n rhy anhwylus i'r rhelyw o blant a fyddai'i ei mynychu. Diangen fu'r ofni a chyda ysgol feithrin i'w hagor yn fuan yn yr adeilad yr oedd dyfodol Bro Eirwg yn ddiogel. Cofiodd am gyflwr echrydus adeilad yr hen Fryntaf a fu'n gartref i'r ysgol cyn symud oddi yno - a sibrydodd rhywun yn y cefn "a dioddefws a orfu!"

Dilynwyd y Prifathro gan Emyr Currie-Jones. Mynegodd yntau ei lawenydd ar yr achlysur a'i hyder yn nyfodol addysg Gymraeg yn Ne Morgannwg ac yn Ysgol Bro Eirwg. Dadorchuddiodd goflech yn cofnodi yn Gymraeg agoriad swyddogol Ysgol Bro Eirwg, a thro ar fyd oedd gweld coflech arall ar bwys - coflech yn Saesneg yn cofio agoriad swyddogol yr un adeilad fel ysgol Saesneg Pen-yr-Heol gan James Callaghan A.S. ychydig dros ugain mlynedd yn ôl.

Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs. Currie-Jones a Mrs.Watkins ac yna cafwyd perfformiad o ddawnsfeydd gwerin gan barti dawnsio gwerin yr ysgol a oedd ond newydd ddychwelyd o Lydaw lle buont yn perfformio. Fe'i hyfforddwyd gan Mrs.Glenys Jones, y dirprwy brif-athrawes.

Prynhawn i'w gofio, prynhawn o hyder; ein dymuniadau gorau i'r prifathro, ei staff ac yn anad neb i'r plant, a hir oes i Ysgol Bro Eirwg yng Ngwynllwg!

# Colofn Shân Emlyn

FEL ARFER RHYW hel meddyliau fydda i yn fy ngholofn yn Y Dinesydd, a thra'n gwneud hynny yn ymwybodol mai Cymry Caerdydd fydd yn debygol o ddarllen y golofn. Ond y mis hwn Y Dinesydd yw papur bro plant Cymru, a Chymru gyfan.

Mae 'na lawer o wgu a chilwenu ar Gymry Caerdydd gan ein cyhuddo o fod yn grachach neu'n ddosbarth canol, a'n gwawdio am fod llawer ohonom yn ennill ein bara beunyddiol ar gorn y Gymraeg. Yda chi ddim yn meddwl mai agwedd negyddol ydy hon?

Mi ddweda wrtha chi be ydy'r rhan fwya' ohonom ni - pobl ddwad o wahanol froydd Cymraeg, sydd trwy ddamwain gyrfa a gwaith wedi ymgartrefi yng Nghaerdydd, priodi a magu plant. Oherwydd ein cefndir mi ryda ni wedi ymdrechu i roi magwrfa Gymraeg i'n plant, ac felly o anghenraid mae 'na elfen ffals yn ein cymdeithas. Bron na ddywedwn i, mai'r hyn a wnawn ni rieni yw smalio ein bod yn magu'n plant ym mroydd ein plentyndod. Yr unig ffordd i wneud hyn oedd brwydro am ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd Cymraeg, anfon ein plant i'r Ysgol Sul, sefydlu adrannau o'r Urdd a sefydlu papur bro cynta' Cymru. Mae Mudiad y Dysgwyr yn frwd ac yn gry' iawn yma, a gyda llaw does 'na'r un gymdeithas arall yng Nghaerdydd sy'n fwy hael 'i chefnogaeth ariannol i'r Dinesydd.

Yn y blynyddoedd diwetha' 'ma fe groesawyd yr Eisteddfod Genedlaethol, yr Ŵyl Gerdd Dant a'r Ŵyl hon i Gaerdydd - arwydd o frwdfrydedd y lleiafrif o Gymry Cymraeg sy' 'ma ac o ewyllys da y di-Gymraeg tuag atom.

Erbyn hyn mae 'na do o blant a phobl ifanc sy'n ymfalchio mai Caerdydd yw eu bro Cymraeg ac yn llwyddo i fyw bywyd cyflawn drwy'r Gymraeg. Sefydlwyd Clwb Ifor Bach fel canolfan gymdeithasol, ac mae'r ifanc yn tyrru yno i gymdeithasu, i wrando ar sesiynnau pop, gwrando ar ddarlith neu fynychu dosbarthiadudysgu Cymraeg.

Er mai "geneth fach o Lŷn wyf i" a theyrngarwch emosiynol i'r fro honno, mi fyddai yn codi fy ngrwychyn wrth glywed pobol a'i lach ar Gymry Cymraeg Caerdydd. Teg fyddai'r feirniadaeth honno petaem wedi bodloni ar fynd efo'r lli ac amddifadu ein plant o'u treftadaeth, a'i gwneud yn dlotach o golli iaith a diwylliant eu gwlad. Er mai lleiafrif yw Cymry Cymraeg y Brifddinas, rydw i'n ddigon haerllug i gredu mai da o beth yw hi i Gaerdydd ein bod ni yma ac yn gyfraniad i ysbryd hyderus cân Dafydd Iwan "er gwaetha pawb a phopeth,ryda ni yma o hyd."

---

# AROLWG ADDYSGOL

gan EMYR CURRIE JONES Cadeirydd
Pwyllgor Addysg De Morgannwg.

MAE GOLWG pur wahanol ar Gaerdydd yn 1985 i'r hyn ydoedd yn 1965 pan ymwelodd Eisteddfod yr Urdd ddiwethaf â Chaerdydd. Mae canol y ddinas yn rhydd o drafnidiaeth ac adeiladau newydd ar bob llaw, yn cynnwys Canolfan Siopa Dewi Sant a'r Neuadd Gyngerdd - un o oreuon Ewrop. Ond y newid pwysicaf i ni fel Cymry Cymraeg yw datblygiad cyflym a sicr yn ysgolion Cymraeg o fewn y ddinas ac yn Sir De Morgannwg.

Mae enw "Ysgol Bryntaf" a sefydlwyd ym 1949 yn adnabyddus drwy Gymru, a chofir yn dda am rai o'r sylfaenwyr fel Gwyn Daniel, a Llewelyn Jenkins. O ysgol fechan gerllaw Parc Ninian cynyddodd Bryntaf gan ymsefydlu erbyn y saithdegau yn hen Ysgol Uwchradd y Merched yn y Parade gyda bron 650 o ddisgyblion. Bu'n ysgol lwyddiannus ymhob ystyr, a dan ofal ysbrydoledig Enid Jones Davies a Tom Evans bu'r ysgol a'i disgyblion yn fodd i drawsnewid cymreictod y ddinas. Lle bu plant yr eglwysi Cymraeg ar un adeg yn Saesneg eu hiaith, erbyn hyn eithriad yw plentyn heb fedru'r Gymraeg ym rhugl.

Meithrinodd Bryntaf gariad newydd at iaith a diwylliant Cymru mewn to ar ôl to o'n plant a'n pobl ifanc, a hwy oedd aelodau cyntaf Canolfan yr Urdd - sydd wedi tyfu yn sefydliad mor bwysig i Gymry ifanc Caerdydd, ac yn arbennig i nifer cynnyddol o ddysgwyr (diolch i Gwilym Roberts a'i gydweithwyr dyfal).

Gan fod yr ysgol bellach yn rhy fawr, a chostau teithio yn cynyddu, penderfynwyd i ddatganoli, a sefydlwyd pedair ysgol mewn gwahanol rannau o'r ddinas i gymeryd lle Ysgol Gymraeg Bryntaf, gyda 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i bob ysgol bob blwyddyn. Y gyntaf oedd Ysgol Melingruffydd yn yr Eglwys Newydd yn 1979, gyda dwy ysgol arall yn dilyn yn 1981, sef Ysgol y Wern yn Llanishen, ac Ysgol Coed-y-Gof yn y Tyllgoed. Bu rhaid aros hyd fis Medi 1983 cyn cael ysgol i weddill plant Bryntaf, ond mae'r ysgol hon, Ysgol Bro Eirwg yn Llanrhymni, wedi ennill ei phlwyf yn gyflym, ac ym mis Medi eleni bydd 45 yn hytrach na 30 o blant newydd yn cael du derbyn i'r ysgol.

Datblygiad arall diddorol eleni fydd sefydlu ysgol feithrin ynghlwm ag Ysgol Bro Eirwg - yr ysgol feithrin Gymraeg gyntaf dan nawdd yr awdurdod addysg, ond gobeithiwm ymestyn y ddarpariaeth yma i'r ysgolion Gymraeg eraill maes o law.

Diddorol sylwi er bod nifer y disgyblion yn ysgolion cynradd Cymru a Lloegr yn disgyn bob blwyddyn, cynyddu yn flynyddol fu hanes yr ysgolion Cymraeg. Mae lle i 840 o blant ym mhedair ysgol cynradd Cymraeg Caerdydd, ond mae'r Pwyllgor Addysg yn barod yn chwilio am safle i agor y bumed ysgol Gymraeg yn y ddinas. Yn ychwanegol, mae ysgolion Cymraeg Penarth a'r Barri yn orlawn, a'r galw'n tyfu'n gyson yn y Bontfaen.

Nid oes pwrpas sefydlu ysgolion cynradd Cymraeg heb ymestyn y ddarpariaeth i addysg uwchradd, ac yn 1977 ar ôl brwydr ffyrnig, penderfynwyd troi Ysgol Gyfun Saesneg Glantaf yn ysgol uwchradd Gymraeg. Erbyn hyn nae bron i fil o blant yng Nglantaf, a chynlluniau am estyniad pellach i gyfarfod â'r galw.

Yn naturiol ni bu'r cynnydd heb ei broblemau ond problemau llwyddiant oeddynt, ac yr wyf yn falch o allu talu teyrnged i aelodau pob plaid ar y Cyngor Sir - buont, a maent, yn gytun yn eu penderfyniad i ymateb i'r galw cynyddol, ac i ddarparu yr addysg orau posibl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ni allaf derfynnu hyn o ysgrif heb dalu teyrnged i'r Mudiad Ysgolin Meithrin, a'r grwpiau gwirfoddol ledled y ddinas - iddynt hwy mae'r diolch am yr holl lwyddiant a'r cynnydd. Dyma'r bobl a fu'n atgoffa eu cyd-ddinasyddion o arwyddair Dinas Caerdydd - "Deffro, mae'n ddydd!"

# LLYTHYRAU

Annwyl Dinesydd

Sylwais i Gyngor Dinas Caerdydd wrthod cais Cymdeithas yr Iaith Gymraeg am argraffu ffurflenni'r dreth yn ddwyieithog. Un o'r prif resymau dros hyn, fe ymddengys, oedd nifer y trethdalwyr sy'n gofyn am ffurflenni Cymraeg.

Mae'n drist meddwl bod hyn yn wir: enghraifft ragorol o drylwyredd y cyflyru a fu arnom fel Cymry Cymraeg dros gymaint o flynyddoedd. Ond nid yw hynny'n esgus ddigonol dros ein marweidd-dra cyffredinol.

A gaf apelio at ddarllenwyr Y Dinesydd, y rhai hynny sy'n drethdalwyr, i gefnogi'r galw am ffurflenni dwyieithog? Credaf bellach mai camgymeriad oedd i rai ohonom, gryn ugain mlynedd yn ôl, sicrhau bod fersiwn Gymraeg ar gael. Gwendid sylfaenol yr ymgyrch honno, er iddi fod yn llwyddiannus yn y diwedd, oedd gwneud hawl dinesydd i weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg yn amodol ar OFYN am yr hawl i wneithredu felly. Nid yw hawliau amodol fel hyn yn ddigonol. Dinesydd eilradd yw'r sawl sy'n gorfod gofyn am y CYFLE i ddefnyddio ei hawliau.

Mae'n amlwg bod nifer sylweddol o Gymry Cymraeg y ddinas hon yn awyddus i weld y Gymraeg yn ffynnu ym mywyd ei dinasyddion. Ceir digon o dystiolaeth i hynny yn ansawdd y gweithgareddau Cymraeg sydd o'n cwmpas. Ond dyma un man amlwg arall lle gellir gweithredu'n effeithiol, a'r cyfan sy'n rhaid ei wneud yw llythyru â swyddogion treth y ddinas; gofyn, yn syml, am i ffurflenni'r dreth ddinesig fod yn ddwyieithog. Nid oes angen cyflwyno unrhyw ddadl gymhleth; dim ond nodi y carech i'ch ffurflen dreth nesaf fod yn ddwyieithog.

Yn gywir
Meredydd Evans.

---

Allt-y-Wennol
Croes-yr-Allt
Llanbedr y Fro

Annwyl Dinesydd,

Amgaeaf siec a wrthodwyd gan "Austen Brothers Circus Limited" fel tâl mynediad i'w Syrcas yn ddiweddar. Mae'n anodd credu yn y Gymru sy ohoni bod y fath beth yn bosibl.

Gwrthododd Rheolwr Syrcas o Sais fynediad i blant bach i'w syrcas hanner gwag ar sail eu hiaith a hwythau yn eu dagrau'n dyheu am gael gweld y sioe. Peth anodd yw cydnabod i blant y byddai awdurdodau'r syrcas yn falch o gael eu harian, ond nad oedd eu hiaith yn dderbyniol.

Ar y ffordd adre yn ei siom dywedodd fy merch hynaf wrth weld ein bysus ni "Ond edrychwch Mama, mae Cymraeg yn glir ar hwnna!" Anwybodaeth o'r iaith oedd sail gwrthod y siec. Gofynnwn felly i Dadau'r Ddinas i egluro i'r sawl a ddaw i ofyn am ganiatad i ddefnyddio'n tir ni, yn ein Prifddinas ni, ac a ddaw i berfformio inni, bod iaith arbennig gennym ni ac na ddylent fod yn waradwyddus tuag atom nes gwrthod mynediad inni i'w gweithgareddau ar sail eu diffyg gwybodaeth nhw o'n iaith ni.

Dim ond eisiau gallu i gyfrif at ddeuddeg yn ein hiaith oedd arnyn nhw a byddai pedwar o blant wedi mynd oddi yno ar ben eu digon yn cofio'r achlysur hyd ddiwedd eu hoes. Atgof wahanol iawn sydd ganddyn nhw nawr am eu hymweliad cyntaf â'r syrcas - diolch i anwybodaeth a diffyg diwylliant Rheolwr Austen Brothers Circus Limited.

Yr eiddoch yn gywir,
Ethni Jones
(ac ar ran Garmon, Mererid, Gwenfair a Rhiannon.)

---





- **SBEC** — Yr unig gylchgrawn rhaglenni sy'n rhoi manylion llawn am holl raglenni S4C.
- **SBEC** — Ar gael yn awr trwy danysgrifiad drwy'r post bob wythnos am ddim ond £12 y flwyddyn.




- Gyrrwch siec neu archeb post yn daladwy i: **Tanysgrifiadau Sbec** a'i yrru at y cyfeiriad yma:

**Tanysgrifiadau SBEC,**
**25, Heol yr Eglwys Gadeiriol,**
**Caerdydd. CF1 9HA.**

Sbec

Amgaeaf siec/archeb post wedi ei chroesi yn daladwy i **Tanysgrifiadau Sbec**

ENW ..............................

..............................

..............................

..............................

CYFEIRIAD ..............................

..............................

..............................

..............................

**Tanysgrifiadau SBEC,**
**25, Heol yr Eglwys Gadeiriol,**
**Caerdydd. CF1 9HA.**

D1

# GOFAL O'R HENOED

MEWN MIS arferol y mae rhyw dri chant o henoed yn dychwelyd i'w cartrefi o ysbytai Morgannwg. O'r rhain y mae'r amcan gyfrif yn dangos bydd tua 27% yn cael ei danfon yn ôl i'r ysbyty mewn wythnos oherwydd nad oedd neb i roddi cefnogaeth iddynt.

Y mae'r newid o amgylchfyd yr ysbyty i'w cartrefi mor wahanol, yn enwedig hefo y rhai hynny sydd yn byw ar eu penna'u hun. Gall gwirfoddolwyr wneud eu rhan i alluogi nifer fawr o henoed i gadw eu hannibyniaeth wrth ymweld â nhw yn eu cartrefi o bryd i'w gilydd am ryw chwech wythnos wedi gadael yr ysbyty. Gall y gwirfoddolwyr gymryd rhan ym mywyd yr henoed drwy weithredoedd fel ychydig o siopa, casglu pensiwn, paratoi pryd bach o fwyd, neu gynnig cwmni iddynt, a sicrhau fod popeth yn iawn yn y tŷ.

Y mae cynllun dychwelyd o'r ysbyty sydd wedi ei drefnu gan Gofal o'r Henoed yn Ne Morgannwg yn apelio am wirfoddolwyr i roddi cymorth i'r henoed yn yr adeg pwysig hyn pan ddychwelant adre : COFIWCH HENOED CAERDYDD A'R FRO

Cysylltwch â
The Hospital Discharge Scheme
Refuge Assurance House
2 Heol y Frenhines
Caerdydd Ffon 394956

# SBEC AR Y PENTRE!

MAE YNA DŶ rhwng gerddi yn ymyl tref Caerdydd ac mi dreuliais i flynyddoedd yno, gan weld Rhiwbeina'n datblygu o fod yn bentref i ddod yn rhan o'r brifddinas. Pan gyrrhaeddais i yr oedd gwartheg ar hynny yr oedd yn weddill o hen ffarm Llanishen Fach yn pori yn y cae yng nghefn y tŷ - ac o'r ffarm yma, gyda llaw, y daeth teulu Oliver Cromwell.

Ar y caeau lle'r oedd yr yd yn ei stodiau y codwyd hen bentre taclus a rhyfeddol Rhiwbeina yn stad gydweithredol - pob un yn berchen ei dŷ ei hun, ond y pentre dan reolaeth cymdeithas cydweithredol. Roedd W.J.Gruffydd yn flaenllaw iawn gyda'r datblygiad, ac fe'i gwelid fel rhyw ddinas noddfa i'r Cymry Cymraeg.

Ceid cartre R.T.Jenkins y drws nesa i un W.J. Bu Kate Roberts a llu o fawrion yn byw yma, a Iorwerth Peate oedd un o'r rhai olaf o'r hen ddeiliaid i ymadael.

Yn fy nghyfnod i y bersonoliaeth fawr oedd yno o hyd oedd Jack Jones - dyn ar dân, os bu un erioed. Byddwn yn galw i'w weld yn gyson neu daro arno ar ei ffordd i'r Butcher's Arms, lle 'roedd ei gadair ei hun ganddo a lle byddai peldroedwyr Cardiff City - Ivor Allchurch, John Charles, Mel Charles - yn cwrdd; neu ei weld yn mynd i'r pictiwrs i'r Monico.

Enw pob heol yn yr hen Riwbeina ac yn y Rhiwbeina newydd yn y Gymraeg, ysywaith gwneud i Gymro Cymraeg fel fi deimlo'n estron a wnai hynny. Gelwid "Heol" yn "Hoyl". Hoyl Iwtshaff oedd Heol Uchaf, ac oferedd oedd holi ble'r ydoedd dan unrhyw enw arall. Yr un modd ẏ gweddill: HLF oedd Heol Llanishen Fach....

Gyda'i holl ymledu i'r maesdrefi mae Caerdydd heddiw'n wahanol iawn i honno welais i yn y tlodi mawr cyn y rhyfel. Trip o Ysgol Pwllheli'n mynd yno. Ninnau'n gweld y tramiau ar y prif strydoedd ac yn rhedeg hyd at y dociau. Cofio fy mod yn aros yn Cathedral Road gyda gŵr busnes a hwnnw amser brecwast yn bytheirio ynglŷn â'i gymydog am fod gan hwnnw geiliog oedd yn ei ddeffro ym mherfeddion pob bore.

Un peth bach a'm syfrdanodd am Gaerdydd pan ddeuthum yn un o'i dineswyr - y nifer mawr o barciau cyhoeddus oedd iddi ac mor agos oedd cefn gwlad. Cerdded rhyw chwarter milltir a dyna pob heol yn diflannu a chwithau yn uchel nef Bro Morgannwg.

Un peth nad yw'n newid (gan i mi sôn am hen beldroedwyr) yw trafferthion tim y ddinas...

Biti, biti
Am Cardiff City......

JOHN ROBERTS WILLIAMS.


CYMDEITHAS Y CYMOD YNG NGHYMRU

CYNGOR BLYNYDDOL 1985

yn y DEML HEDDWCH, CAERDYDD
Dydd Sadwrn Mehefin 1

Cyfarfod Cyhoeddus am 11.00
Cinio gyda chynrychiolwyr o'r Gymdeithas yn Lloegr

DARLITH GOFFA ALEX WOOD
gan
D.R.THOMAS, ABERYSTWYTH
am 3.00


CROESO CYNNES I BAWB
DOWCH YN LLU

Enwau i'r Ysgrifennydd
erbyn Mai 20
14 Tŷ Kenilworth
Heol-y-Porth
CAERDYDD CF1 1DJ.



CLWB CYMRAEG Y BRIFDDINAS
Dros y Ffordd i'r Castell
Tafliad Carreg o Faes yr Eisteddfod

**HEOL WOMANBY, CAERDYDD, CF1 2BR**
**FFÔN: (0222) 32199**




Galwch i mewn i'n gweld ac i fwynahau cwmniaeth ddifyr!
Croeso i bawb - aelodau ac ymwelwyr.
Mynediad i'r clwb ei hun yn rhan ac am ddim!

CINIO
Rhwng 12.00 a 3.00 bob dydd. Croeso i'r teulu cyfan!

ADLONIANT

| | |
|---|---|
| Nos Fawrth | Grwp gwerin o Bafaria a Mabsant |
| Nos Fercher | Derec Brown a'r Racaracwyr a Treiglad Pherffaith |
| Nos Iau | Bwchadanas |
| Nos Wener | Disgo |
| Nos Sadwrn | Geraint Jarman * i'w gadarnhau |

ORIAU AGOR YN YSTOD YR EISTEDDFOD

| | |
|---|---|
| Sul: | 7.00 y nos tan 10.30 y nos. |
| Llun: | 7.00 y nos tan 12.00 y nos * |
| Mawrth: | 11.00 y bore tan 12.00 y nos * |
| Mercher: | 11.00 y bore tan 2.00 y bore canlynol |
| Iau: | 11.00 y bore tan 12.00 y nos * |
| Gwener: | 11.00 y bore tan 2.00 y bore canlynol |
| Sadwrn: | 11.00 y bore tan 2.00 y bore canlynol |

* i'w gadarnhau

## Ymchwilydd - Rhaglenni Plant

**(ail-hysbyseb)**

Mae angen Ymchwilydd ar HTV Cymru i weithio ar raglenni plant ac i arbenigo ar raglenni meithrin. Dylai'r ymgeiswyr fod â phrofiad, neu o leiaf diddordeb byw, yn y mathau yma o raglenni, ac yn barod i ymuno â thîm bywiog a gweithgar yn sefydlog yng Nghaerdydd.

Cyflog (o dan hyfforddiant):- £6,400 y flwyddyn. (Wedi gorffen hyfforddiant, bydd y cyflog rhwng £9,900 a £12,900 gan gynnwys atodiadau lleol).

Y swydd i gydymffurfio â'r cytundeb rhwng y cwmni ag undeb ACTT.

Dylai ymgeiswyr, meibion neu ferched, anfon am ffurflen gais gan amgau amlen hunangyfeiriedig gan nodi cyfeirnod DI/427 at:
Rheolwr Staffio, HTV Cyfyngedig,
Y Ganolfan Deledu, Caerdydd
CF5 6XJ.

YR YDYM YN GYFLOGWR CYFLE CYFARTAL

HTV


SYMUD: Dymunwn yn dda i Carys Hall a Geraint Evans yn eu cartref newydd. Mae'r ddau ar fin gadael Llandaf ac ymgartrefu yn y Barri lle mae gwreiddiau'r ddau.

YMWELD: I'r rhai ohonoch sy'n cofio'n annwyl iawn am deulu cymwynasgar yr Harries Hughes' bydd o ddiddordeb i chi glywed bod Ruth y ferch hynaf a'i merch yn dod ar ymweliad yr haf yma gyda chor o Canada - a Lyn, wyres Alwen a Keri Harries Hughes, yw un o'r unawdwyr. Mor falch fyddai Taid a Nain.

---

MERCHED Y WAWR:
AR Y NOSON gyntaf o Ebrill cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Merched y Wawr. Wrth i Mrs.Myfanwy Jarman gamu o'r llywyddiaeth cymerwyd ei lle gan yr Is-lywydd Mrs.Buddug Lloyd. Etholwyd Mrs.Rebecca Powell yn Is-lywydd. Cytunodd yr ysgrifenydd a'r trysorydd i barhau am flwyddyn arall.

Wedi peth trafod cafwyd cwis ar lyfr Marian Eames "I Hela Cnau" a chwech o aelodau'r gangen mewn dau dim.

Cynhelir y swper sirol ar Fehefin 28. Dylai'r enwau fod yn llaw'r ysgrifennydd ar unwaith.

EISTEDDFOD DYSGWYR MORGANNWG A GWENT
Cynhaliwyd seithfed Eisteddfod flynyddol Dysgwyr Morgannwg a Gwent ar nos Fercher Ebrill 3 yng Nghanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd. Daeth tyrfa ardderchog ynghyd fel arfer a chafwyd cystadlu brwd. Enillwyd gwpan yr Eisteddfod am y marciau uchaf gan Ganolfan Oedolion Pen-y- Bont ar Ogwr. Daeth Ganolfan yr Urdd Caerdydd yn ail, Dysgwyr Ardal Pontypridd yn drydydd a Dysgwyr Tŷ'r Cymry, Caerdydd yn bedwerydd. Dyma'r pedwerydd tro i Ben-y-Bont enill yn yr Eisteddfod. Y beirniaid oedd Wil Morris Jones (Cerdd), Aled Gwyn (adrodd), Ann Jones (llen), Eluned Davies Scott (coginio), ac athrawon Ysgol Glynderw, Trelai (celf a chrefft). Arweinwyr y llwyfan oedd Robin Jones a Rhiannon Rees. Helen Williams oedd y gyfeilyddes swyddogol, a llywydd y noson oedd Dr Anne Brooke o'r Rhondda. Enillwyd gystadleuaeth y Goron am stori fer gan Mrs Edwards o Gilfach Goch. Elen Rhys, Ysgrifennydd Pwyllgor Dysgwyr De Morgannwg oedd yn gyfrifol am yr holl drefniadau, a chafwyd gynorth parod gan Falmai Griffiths a Linda Moran.

# C.N.D. Y.D.N.
# GRŴP CYMRAEG CAERDYDD
## RALI YN ERBYN TRIDENT



## Cychwyn am 12.00 o flaen
## Pabell C.N.D.
## DYDD SADWRN, MEHEFIN 1af

# O DDEC S4C

CYFARCHION GAN GYFARWYDDWR S4C

BU LLAWER TRO ar fyd yng Nghaerdydd oddiar i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd dalu ei hymweliad cyntaf yma ugain mlynedd yn ôl. Nid oedd sôn yng Ngerddi Sophia am y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol lle cynhelir yr Eisteddfod eleni. Pabell fawr yn agos i safle'r Ganolfan oedd ei chartref ugain mlynedd yn ôl. Nid oedd sôn am Sianel 4 Cymru na Radio Cymru y pryd hynny i ddod ag oriau lawer o ddarlledu a theledu o faes Prifwyl yr Ifanc i gartrefi ymhob cwr o Gymru a thu draw i Glawdd Offa.

Cynhelir yr Eisteddfod eleni ymron yn llythrennol ar stepsen drws S4C. Bydd miloedd o'n gwylwyr ifanc yn pasio ein drws ffrynt wrth gerdded o Heol yr Eglwys Gadeiriol ar hyd Clos Sophia i'r Eisteddfod. I'r sawl a ddaw i'r Maes o gyfeiriad y ddinas bydd presenoldeb S4C ym mhabell Dinasbedain yn amlwg i'r llygad a'r glust.

Byddwn ninnau yn S4C yn ceisio cadw mewn cof ein bod yn teledu gwasanaeth o raglenni Cymraeg i bob rhan o Gymru; yr ardaloedd gwledig yn ogystal â'r trefi a'r dinasoedd, Caergybi yn ogystal â Chaerdydd.

Byddwch chi Eisteddfodwyr o bob rhan o Gymru yn pasio Canolfan y Sianel yn un dorf llawen ar eich ffordd i mewn i'r Eisteddfod. Bydd eich gweld yn atgoffa pob un ohonom ni griw S4C mai ein prif ddyletswydd yw eich gwasanaethu chi a sicrhau hyd y bo modd ein bod yn paratoi arlwy sydd yn apelio at Gymru gyfan.

Cyfarchion i Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd gan bawb yn S4C - heb anghofio Superted a Wil Cwac Cwac!

TAFLEN

LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.

Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.

Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar ddydd Sadwrn)

CYFAMODIR POB ELW I
GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD.


CWIS I YMWELWYR YN UNIG

Cynnigiwn £5 o wobr am yr atebion cywir cyntaf i gyrraedd stondin Byrti Bws yn ystod yr wythnos. Edrychwch ar y lluniau isod yn ogystal a'r lluniau a welir ar dudalennau 10 a 15. Pa adeiladau a welir, ac ym mhle y gwelir y cofebion?

Tynnwyd y lluniau gan Huw Davies, Llandaf, sy' nawr yn gweithio yn San Cler, ac yn byw yng Nghaerfyrddin. Diolch yn fawr iddo.








# GAIR GAN Y GYRRWR



GADEWCH I MI, ar ran y Pwyllgor gwaith estyn croeso cynnes iawn i bawb fydd wedi ymuno â ni yn y Brifwyl yn ein prifddinas. Yr ydym yn falch iawn o'ch gweld ac yn gobeithio o waelod calon y byddwch yn yn teimlo yn gartrefol yn ein plith. Hyderwn ni, drigolion Caerdydd a'r cylch, y bydd yr Eisteddfod yn rhoi'r cyfle i ni ad-dalu i breswylwyr eraill o Gymru y croeso a gawsom ni yn y gorffennol wrth ymweld â gwahanol ardaloedd o Gymru.

Mae 1985 yn Flwyddyn Ryngwladol Ieuenctid y Byd a chofiwn gyfraniad unigryw ac arbennig yr Urdd i feithrin perthynas ystyrlon ac Ewyllys Da rhwng ieuenctid Cymru a'r byd. 'Rydym hefyd yn dathlu dau gan mlwyddiant sefydlu'r Ysgol Sul a chydnabyddwn yn ddiolchgar y ddolen gyswllt agos rhwng y ddau fudiad sydd wedi cyfrannu gymaint i fywyd ieuenctid ein cenedl.

Adlewyrcha yr Eisteddfod hon y cynnydd a'r twf rhyfeddol mewn addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion meithrin cynradd ac uwchradd Caerdydd a'r Cylch, lle mae'r Cymry Cymraeg yn y lleiafrif ond, serch hynny, yn derbyn cefnogaeth frwd y di-Gymraeg. Heb y gefnogaeth honno, nid oedd modd i ni gynnal yr Ŵyl hon. Edmygwn hefyd ymdrech llawer o'r rhain i ddysgu'r iaith. Haeddant ein cefnogaeth lwyr.

Defnyddir pedair canolfan sy'n ganolog ac yn gyfleus. Cynhelir y Rhagbrofion yn Ysgol Uwchradd Fitzalan.

Dyma gyfle gwych i chi gefnogi a gwerthfawrogi doniau plant a phobl ifanc ein bro.

Croeso i Gaerdydd - a phob hwyl yn yr Eisteddfod. Gobeithio bydd "Ein Dinas yn dihuno a'r plant yn froliant y fro".

J.E.Malcolm Thomas
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

## ATGOFION MELYS

DAETH YR erthyglau ar Cofio Steddfod '65 â llu o atgofion melys i mi. Os daeth Pwyllgora â chymaint o bleser i'r aelodau ac y daeth paratoadau '65 i'r rhai ohonom oedd yno bryd hynny - gwyn eu byd yn wir.

Mae "nostalgia" yn arwydd o henaint medda nhw - gwir wrth gwrs - ond dim ots am hynny, mi gefais bwl da o'r peth rhyfedd hwnnw y dyddiau oer rheieni mis dwetha wrth fynd trwy'r tapiau a wnaed o gynherddau'r Côr Plant a gawsom yn y Reardon Smith a neuadd yr Ysgol Feddygol o 1965 - 1974.

Er mor sâl yw ansawdd yr hen dapiau rîl i rîl gyda sŵn traed y plant yn croesi'r llwyfan, y peswch, y cymeradwyo a'r cwbl - mae'n ddifyr gwrando arnynt.

Cyflwynwyd yr eitemau gan bedair o'm ffrindiau yn eu tro - J.E.Jones (Y Blaid), Owen Edwards, Robin Jones ac Alun Evans. Rhyfedd clywed Margaret Williams a Derek Boote yn cael eu cyflwyno fel athrawon yng Nghaerffili a Llanhari, Iris Williams yn gweithio mewn swyddfa, Stephen Roberts (bariton), Gareth Jones Roberts (W.N.O.) ac Angela Rogers Davies, yn fyfyrwyr, Heather Jones a Mario Conway yn blant ysgol, a'r Meillion yn cymryd rhan wedi eu llwyddiant ysgubol yng Nghyngerdd y Cyhoeddi. Yr adroddwyr wedyn - Elinor a Marged Profit yn cyflwyno darn o waith Dylan Thomas gyda'i gilydd. Elinor Hughes a Nesta Jones yn adrodd y darnau yr ennillont wobrau arnynt yn Eisteddfodau'r Urdd.

Tanwen Jarman yn canu can werin a'i chwaer bach Catrin yn canu deuawd gyda Rhian Lewis - y ddwy yn saith mlwydd oed. Tessa Huws yn canu caneuon Mary Hopkin i gyfeiliant gitar Eryl Jones, a llu o rai eraill. Tydw'i ddim wedi anghofio cyfraniad Sian Morgan a'i disgyblion a wnaeth gymaint i gyfeilio i amryw o'r cantorion yn ogystal â'u cyfraniad fel cor telynau.

Nid pawb oedd yn gwybod am garedigrwydd Heulwen a Handel Morgan, Cyncoed, yn gwahodd y côr cyfan - oedd weithiau yn 30 - i'w cartre i ymarfer gyda'r telynau - ac am eu hymdrechion byddai diod o bop i bob un o'r plant.

Toes gen i ddim ond diolch calon i gynnig i bob un a fu mor deyrngar i mi a'r côr bach dros y blynyddoedd hapus rheini.

Os byddaf mor ffodus â chael dod i Steddfod '85 ella y caf weld rhai o'r plant gyda'u plant hwythau erbyn hyn.

Beti Wyn Jones,
Llandrillo-yn-Rhos.

# DIOLCH I DRELAI

"ROEDDEM NI'N dechrau meddwl na fyddai fe byth yn cyrraedd!". Dyna oedd geiriau Mr Malcolm Thomas, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd wrth dderbyn yn ddiolchgar gyfraniad o £1,600 oddi wrth gymuned Trelai, Caerdydd - £600 yn fwy na'i nod. Trefnwyd noson arbennig yng Nghlwb Ifor Bach prin pythefnos cyn yr Eisteddfod i gyflwyno'r siec, a chafwyd achlysur deilwng o'r ymdrech a aeth i godi'r swm yma. Mae Trelai yn faestref o Gaerdydd - rhyw 25,000 o bobl yn byw yno, a llai na deg o'r rhain yn Gymry Cymraeg. Ond yn ystod y deg mis diwethaf fe drefnwyd gan bwyllgor bach brwdfrydig nifer o weithgareddau - yn eu plith ffair Hydref, arwerthiant hynod o lwyddiannus, cyngerdd Nadolig ysgolion yr ardal, ac hefyd "Ymgyrch Smarties". Dosbarthwyd llwyth o flychau Smarties ymhlith plant a chyfeillion yr ardal, ac fe aed ati i lenwi'r blychau gweigion a cheiniogau - ffordd bleserus iawn o godi £400!

Cyflwynwyd y siec gan Mrs Jean Beaumond - trysorydd y pwyllgor yn Nhrelai - gwraig leol sydd wedi dysgu siarad Cymraeg yn rhugl yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.




**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffon: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB


**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**








# BWT BYRTI



Dyma rai o ffrindiau Byrti wedi cyrraedd y Steddfod. Ail drefnwch y llythrenau i weld o ble y daethon nhw.




DAETH BES

LLED GOLAU

BW Y GELYN

CES MAWR

AGOR TREN

LLO DANIEL

Ydych chi wedi bod yma ym mhabell Dinasbedain? Tynnwch y wadin o'ch clustiau a cheisiwch lunio o leuaf ugain gair gan ddefnyddio llythrenau o'r gair.




Mae pethau'n poethi yn y gystadleuaeth dawns werin ar y llwyfan. Allwch chi ddarganfod chwe gwahaniaeth rhwng y ddau ddarlun?





## GALW BARRI

TYBED SAWL UN ohonoch sydd wedi adrodd:

"Mae ynys yn Y Barri
Ac awel ym Mhorthcawl"?

Mae yna ynys yy Y Barri. Wel oes, a nag oes. Os edrychwch ar fap fe welwch "Ynys Y Barri", ond fe sylwch hefyd nad ynys mohoni gan fod yna ddarn tenau o dir yn ei chysylltu â'r dref ei hun.

Yno mae gwersyll gwyliau Bytlins fel anghenfil gwyrdd yn ymlwybro ar hyd y trwyn. Yno hefyd mae glan môr Y Barri ble yr heidia trigolion Caerdydd ar yr awgrym lleiaf o heulwen. Ar ôl pobi am oriau yng ngwres y dydd heidiant wedyn tua'r ffair.

Ydych chi wedi gweld lluniau'r ffair ar y teledu? Yno mae'r siglau anferth ar ffurf cwch morladron, a'r "Log Flume" enwog ble y cewch fwynhai taith ar hyd afon mewn cwch sy'n edrych fel darn o bren. Mewn un man ar y siwrnai byddwch yn llithro i lawr y sglefren ac yn taro'r gwaelod gyda nerth sy'n taflu dwr i bobman. Peidiwch a sefyll yn rhy agos!

Os cerddwch o sŵn rhialtwch y ffair, ac aroglau'r cwn poeth (tuag at y dref) cyn ichi orffen eich 99 (dau fflec, sos coch a chnau) fe ddowch at fynwent go arbennig. Yma y cedwi'r hen drenau stem. Fe welwch dren ar ôl tren yn sefyll yn segur ar ôl oes o waith caled, yn disgwyl cael eu datgymalu. Lle trist - wel ie a nage unwaith eto. Ar rai o'r trenau mae arwyddion yn dynodi fod cymdeithasau cadwriaeth wedi eu prynu er mwyn eu hatgyweirio ac adennill eu hurddas rhyw ddydd.



# DAU YN UNIG OEDD YN Y RAS . . .

MAE'N SIWR Y bydd llawer ohonoch sy'n darllen hwn wedi cael, neu yn gobeithio cael y wobr gyntaf. Yna fe fydd y dyrfa a'r camerau ar eich hôl ym mhob man. Ond tybed pwy fydd yn cofio pwy oedd yr ail yn y gystadleuaeth?

Roedd yna halibalw pan droediodd Neil Armstrong ar wyneb y lleuad, y person cyntaf i wneud hynny. Flynyddoedd ynghynt roedd y Rwsiaid yn gorfoleddu pan aeth Yri Gagarin ar daith rownd y byd, y dyn cyntaf deithiol i'r gofod. Dr Roger Banister oedd y cyntaf i redeg milltir mewn llai na phedwar munud - ond pwy oedd yr ail ?

Efallai mai'r person mwyaf enwog am ddod yn ail oedd Robert Falcon Scott. 'Doedd o ddim yn Gymro ond mae yna gysylltiad rhwng ei ymdrechion glew i ddod yn gyntaf â Chaerdydd.

Fuoch chi'n edrych ar "The Last Place on Earth" ar y teledu yn ddiweddar? Hanes y ras rhwng Capten Scott a'r gwr o Norwy Roald Amundsen i gyrraedd Begwn y De oedd y gyfres.

Roedd Scott yn ddyn penderfynnol iawn, a'i ddyhead oedd concro tiroedd newydd cyn unrhyw un arall, ac yn 1911 hwyliodd yn ei long Terra Nova o borthladd Caerdydd am yr Antarctica. Ar ôl cyrraedd gobeithiodd ddefnyddio sledges, modur, ceffylau a chwn hysgi i'w helpu i gyrraedd Pegwn y De yn gyflym. Oherwydd y tywydd erchyll methodd ei gynlluniau a bu rhaid iddo ef a'i griw gerdded gan dynnu'r sledges trymion. Roedd eu taith yn araf ac yn hynod flinedig ac mae'n debyg fod yr olygfa o faner Norwy yn hedfan yn yr aer oer a chlir yn dorcalonus. Roedd Amunsden wedi cyrraedd o'i flaen. Roeddyn rhaid i'r criw trist wynebu'r siwrnai yn ôl oherwydd tywydd eithriadol o wael, daeth y criw byth yn ôl. Bu farw pum gwr dewr yn yr Antarctic.

Os y cewch gyfle, beth am ymweld â llyn y Rhath sydd rhyw dair milltir o faes y steddfod? Pan gyrhaeddwch yno fe welwch oleudy gwyn hardd yn y llyn. Lle od i gael goleudy medde chi - ond cofgolofn ar ffurf cloc ydy'r goleudy arbennig hwn, i gofio am yr arloeswr Capten Scott, y gŵr a ddaeth yn ail.



... gyda llaw, yr ail berson i redeg milltir mewn llai na phedair munud oedd John Landy o Awstralia. Ond pwy tybed oedd y trydydd ...?




Dangoswch i Sian y ffordd i lwyfan y Steddfod.

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| S | U | B | E | I | R | N | I | A | D |
| L | A | M | A | H | E | L | D | W | T |
| R | W | S | B | M | D | G | CH | U | O |
| LL | G | W | O | B | R | F | N | I | E |
| I | C | LL | S | F | O | A | S | LL | W |
| N | O | I | G | Y | C | O | R | E | N |
| M | U | T | B | H | E | U | L | T | A |
| P | N | R | E | F | R | A | M | Y | P |
| F | R | Y | M | E | S | C | TH | S | W |
| O | W | B | R | M | FF | B | N | H | C |

Chwiliwch am ddeg o eiriau yn ymwneud â'r Steddfod yn y sgwâr hwn. Cewch fynd ar draws, i fyny ac i lawr neu yn groes gongl i chwilio amdanynt.



Ar ôl cystadlu mae'n bosib yr enillwch dlws neu darian. Dyma dair tarian arbennig fedrwch chi weld yn mha gystadleuthau y maent yn cael eu rhoi?



Mae Rhodri yn edrych yn falch iawn o'i gerflun yn yr arddangosfa Celf a Chrefft. Fedrwch chi gyfri'r trionglau sydd yn ei gerflyn. Edrychwch yn ofalus mae yna ymhell dros ugain!

# WRTH DDYCHWEL TUAG ADREF

Mae'n debyg fod gennych siwrnai hir yn ôl gartref - wel ar ôl canu ambell i gân, bwyta'r brechdannau sydd wedi bod yn ngwaelod y bag ers echddoe, bod yn sâl yng nghwpan y cydadrodd, beth am chwarae gem? Dyma rai ichi.

Dewiswch restr o bethau gweddol gyffredin fel blwch ffôn, blwch postio, beic ac ati. Ceisiwch weld faint o rhain y gallwch eu gweld mewn ugain munud. Cofiwch, y cyntaf i'w gweld sy'n cael y marc!

Dyma restr o bethau llai cyffredin. Marc eto am weld rhain - cath ddu, siglen, carreg filltir, ambiwlans, cwch, croesfan sebra, tancer betrol, peilon trydan, pabell, awyren.

Ar blât - Tybed sawl gair a welwch ar blatiau ceir e.e. B252MUL

Beth am geisio gwneud gair gan ddefnyddio llythrenau'r plât yn y drefn gywir e.e. CDE CystaDlEuaeth.

Chwiliwch (am y cyntaf) am rif car yn cynnwys 1, yna 2, 3 ac yn y blaen. Pwy fydd y cyntaf i gyrraedd 9? Os y cewch flas ar y gem hon ewch ymlaen i chwilio am 11,12 ac ati.

# CAEL LLOND BOL O BYRTI!


Pizzas Byrti

8 owns flawd codi
2 owns o fargarin
1 wy ac ychydig llai na 1/4 peint o laeth
1 nionyn fawr
Tua 14 owns o domatos tun
1 llond llwy fwrdd o puree tomato
Pupur a halen
2 owns o gaws wedi'u gratio'n fân
Persli wedi ei olwytho
Ychydig o fadarch wedi'u sleisio
2 - 3 sleisen o salami
Ychydig o bys wedi'u coginio

Gwnewch waelod y pizza trwy rhwbio'r margarin i'r blawd yna'i gymysgu gyda wy a digon o laeth i wneud toes meddal. Rholiwch y toes allan i drwch o tua cwarter modfedd yna torrwch yr un siap â Byrti. I wneud y 'topping' torrwch y margarin yna coginiwch mewn ychydig o olew am 5 munud. Yna ychwanegwch y tomatos a'r puree, halen a phupur. Mudferwch hyd nes mae'r cymysgedd wedi gostwng i tua hanner ei faint. (Os oes peiriant prosesu ganddoch neu hylifwr (liquidizer) gellir gwneud y cymysgedd yn llyfnach cyn ei roi ar y gwaelodion.) Taenwch y cymysgedd dros y gwaelodion - (dodwch hwynt ar hambwrdd pobi yn gyntaf) a rhowch gaws ar y traean uchaf (gweler y diagram). Coginiwch am 15-20 munud, ar 200C (400 F) Nwy 6.

I wneud yr wyneb defnyddiwch y pys fel llygaid, sleisen o fadarch fel trwyn ac i gael gwyrdd ar y traean gwaelod rhowch bersli arnynt gan roi tamaid o salami i wneud ceg.

Ar ôl gwneud y wyneb dodwch y pizzas yn ôl yn y ffwrn i ail gynhesu cyn eu gweini.




BISGEDI GOLEUADAU TRAFFIG

1 owns o siwgr
2 owns o fargarin
3 owns o flawd plaen

Curwch y siwgr ar margarin gyda'i gilydd yna ychwanegwch y blawd gan ei gymysgu hyd nes mae'r holl elfennau yn glynnu i'w gilydd. Rholiwch y cymysgedd i drwch ceiniog ac yna torrwch i fysedd 1"x3" mewn maint. Torrwch dri cylch allan o hanner y bisgedi. Coginiwch am 15-20 munud ar Nwy 3, 160 C (325 F). Gadewch iddynt oeri.


I gael lliwiau'r goleuadau traffig gellir defnyddio jam coch, bricyll a 'greengage' ( neu jam bricyll wedi'i liwio'n wyrdd efo lliw bwyd) - mae'n syniad da i ridyllu'r jam gyntaf i gael arwead llyfn. Neu gellir defnyddio eisin dwr wedi ei liwio'n wyrdd, melyn a choch (defnyddiwch 2 owns o siwgr eisin ac ychydig o ddwr cynnes i wneud eisin dwr - peidiwch gwneud yr eisin yn rhy denau).

Rhowch fisgien a thyllau ynddi ar ben fisgien blaen (gellir rhoi ychydig o jam neu eisin i'w glynnu at ei gilydd) yna llenwch y tyllau gyda'r jam neu eisin o'r lliw priodol.

LOLIS BYRTI

Carton o yoghurt plaen
Lliwiau gwyrdd a choch

I wneud siap tebyg i Byrti gellir gwneud mowld allan o bot ffoil gwag gan ei siapio eich hunan. I roi'r goes bren ynddo bydd angen torri twll yn y mould ac yna rhoi ychydig o 'Blue Tack' ar yr ochr arall i'r twll o amgylch y goes. I rwystro'r goes rhag symyd ac i rewi'r loli rhowch y goes mewn hanner taten.




Dodwch ychydig o yoghurt yng ngwaelod y mould a gadewch iddo rewi hyd nes mae'n eitha caled. Yn y cyfamser lliwiwch gweddill o'r yoghurt yn wyrdd ac yn goch. Ychwanegwch yr yoghurt coch i'r mowld, rhewch ac yna gwnewch yr un fath gyda'r yoghurt gwyrdd. Gadewch iddo rewi'n galed. Tynnwch y ffoil i ffwrdd yn ofalus.

LOLIS DU

Defnyddiwch hufen ia plaen ac ychwanegwch, ddafn wrth ddafn, gyfartaledd o liwiau bwyd glas, coch a gwyrdd hyd nes mae'r hufen ia yn ddigon du i godi cyfog ar unrhyw oedolyn! Dodwch mewn mowld gyda coes bren a gadewch iddo rewi am ddwy neu dair awr.



WYAU WEDI MARMORI

Tri wy
Lliwiau bwyd coch a gwyrdd

Dyma ffordd ddiddorol i weini wyau ar gyfer partion neu focs bwyd i fynd i'r ysgol.

Gwnewch rai gyda lliw bwyd coch a rhai gyda gwyrdd.

1. Dodwch y wyau mewn sosban gan ychwanegu digon o ddŵr oer i'w gorchuddio.
2. Berwch yr wyau am dri munud yna codwch hwynt o'r dŵr gyda llwy.
3. Ychwanegwch tua dwy llond llwy de o liw bwyd i'r dwr.
4. Defnyddiwch lwy i 'dapio'r' wyau hyd nes mae'r plisgyn yn graciau drosto.
5. Dychwelwch y wyau i'r dŵr lliw, gadewch iddynt ferwi am saith munud.
6. Rhowch yr wyau mewn dŵr oer (ychwanegwch rew a llond llwy de o'r lliw bwyd priodol). Pan yn oer tynnwch y plisgyn oddi ar yr wyau.


COCTEL BYRTI

Ciwbs ia
Ceirios coch
Sudd afal (defnyddiwch hanner cyfanswm o sudd afal i'r cwrw sinsir)
Cwrw sinsir
Lliw bwyd gwyrdd

1. Mesurwch digon o ddŵr i lenwi hambwrddau ciwbiau ia, yna rhowch y dŵr mewn jwg ac ychwanegwch liw bwyd gwyrdd hyd nes mae'r dŵr yn liw gwyrdd tywyll.
2. Dodwch geiriosen ym mhob adran o'r hanbwrdd ia yna llenwch hwynt a'r dwr gwyrdd. Gadewch iddynt rewi.
3. Cymysgwch y sudd afal gyda'r cwrw sinsir yna cyn ei weini dodwch y ciwbs ia yn y diod.

# BYRTI BWS
# ac
# S4C

Yn gweithio gyda'i gilydd ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch 1985




Bydd S4C yn darlledu 22 awr o raglenni o'r Eisteddfod - mwy nag erioed o'r blaen!

WALES4CYMRU
Sianel Pedwar Cymru







# GWILYM YN COFIO

DOEDD DIM ADRAN yr Urdd yn Ysgol Gynradd Rhiwbeina nac yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Penarth pan bum i'n ddisgybl ynddyn nhw amser maith yn ôl erbyn hyn ysywaeth! Des i gysylltiad â'r Urdd gynraf pan oeddwn i'n fyfyriwr yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin, a dechreuais i fynd i Wersyll yr Urdd, Llangrannog, a hynny dros bum mlynedd ar hugain yn ôl bellach! Cofiaf yn dda am afiaeth a hwyl yr hen wersyll, a chredaf ei fod wedi bod yn goleg da i genhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o fyfyrwyr a'u pryd ar ddysgu.

Dychwelais i Gaerdydd ar ôl fy nyddiau yn y coleg i fod yn athro Cymraeg yn ysgol gynradd Trelai a dechreuais i fynd â'm disgyblion i Langrannog. Byddaf yn cwrdd ag ambell gyn-ddisgybl o dro i dro a brofodd hapusrwydd yr wythnos o wersyll ar lan Bae Ceredigion a phob un yn tystio mai dyna'r gwyliau orau a gawsant. Oes mae rhyw hud o gwmpas y gwersyll hyd heddiw.

Wrth edrych nôl dros ysgwydd amser cofiaf am fy mhlentyndod yng Nghaerdydd a'r diffyg cyfle i ddefnyddio'r iaith tu allan i'r cartre a'r capel i gymharu â heddiw. Onibai am ddycnwch a dyfalbarhad fy rhieni, buasai fy mrawd a minnau wedi troi'n Saeson bach. Ond dyfal donc oedd biau hi, ac yn ystod gwyliau'r haf byddai fy mrawd a minnau yn mynd i aros gyda theulu fy nhad ym Mhenrhyndeudraeth er mwyn cryfhau ein Cymreictod mewn ardal oedd i bob pwrpas y dyddiau hynny yn ardal uniaith Gymraeg. Edrychaf yn ôl gyda phleser at y gwyliau hynny hyd heddiw a'r argraffiadau a sugnais i'm cyfansoddiad heb sylweddoli megis a daliaf i gael pleser anghyffredin o ymweld â'r ardal honno.

Cyn sefydlu Aelwyd yng Nghaerdydd yn ystod gaeaf 1959/60 yr unig le seciwlar Gymraeg i bobl ifanc gwrdd oedd yn Nhŷ'r Cymru yn Heol Gordon a arferai gynnal cyfarfodydd bob nos Sul ar ôl Capel, a phob nos Fawrth. Cyfyng oedd y lle ar gyfer y bobl ifanc a dyrai yno, nid er mwyn y diwylliant cymaint, ond er mwyn cyfarfod â phobl ifanc o'r un anian a chael cyfle i gymdeithasu a threfnu ambell i oed. Os trwm a sych oedd nifer y darlithiau pa ots a chyfle i drefnu oed uwchben paned o de ar ddiwedd y nos.

Yn nes ymlaen agorwyd Canolfan yr Urdd a dechreuwyd cynnal ddosbarthiadu Cymraeg i oedolion ifanc y ddinas. Y disgybl cyntaf oedd Charles Craves a ddaeth yn berffaith rugl yn yr iaith gan briodi merch o'r enw Menna Davies oedd yn aelod yng nghapel Heol y Crwys. Aeth yr un diosgybl yn ddosbarth a'r un dosbarth yn ddosbarthiadu nes bod y Ganolfan fel cwch gwenyn ambell i noson.

Erbyn heddiw mae Caerdydd wedi newid yn llwyr gan fod cymaint o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae capeli Cymraeg ac Ysgolion Uwchradd Gymraeg heb sôn am y dwseni neu fwy o gylchoedd Meithrin Cymraeg. Mae'r Cymrydorion yn dal i gyfarfod, dau Gylch Cinio a cheir cangen o Merched y Wawr ac yn ystod y ddwy flynedd diwethaf gwelwyd agor Clwb Ifor Bach gyda'r nod o hybu pob math o weithgareddau ymhlith Cymry Cymraeg y Ddinas.

Y truenu ydy fod 'na lawer o Gymry a ddaw i fyw i'n dinas hardd yn dewis peidio ag uniaethu eu hunain a'r bywyd hwn. Mor hawdd ydy diflannu mewn lle mor fawr. Er gwaethaf pawb a phopeth mae bywyd Cymraeg y brifddinas yn ffynnu a'r dyfodol yn ymddangos yn addawol. Mae'n braf bod yn rhan o'r bwrlwm yma!


## HARDING'S

**210 a 226, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen, Treganna, Caerdydd**

DEWIS HELAETH O GARDIAU CYFARCH, PEN-BLWYDD, BLWYDDIANT, BEDYDD, CONFFIRMASIWN, DYWEDDÏAD, PRIODAS

**CARDIAU CYFARCH CYMRAEG**

TORRIR POB MATH O ALLWEDD
DEWIS O NWYDDAU METEL A NWYDDAU CARTREF

# AR DY FWS

ER MAI'R Eisteddfod fydd prif atyniad yr wythnos yng Nghaerdydd beth am ddwyn awr neu ddwy i gael cip-olwg ar y ddinas ei hun? Mae yma lawer i'w fwynhau, o hynafiaeth Eglwys Sant Ioan yng nghanol y dref, i bensaerniaeth modern Canolfan Siopa Dewi Dant (mynediad o Heol y Frenhines, Heol Siarl neu'r Ais)

Dyma rai awgrymiadau am leoedd i'w gweld:

1. Y Castell, wrth gwrs!
Awyrgylch Normanaidd, Fictorianaidd sy heddiw yn ail-greu naws y canol-oesoedd drwy gynnig gwleddoedd fin nos (£12 y pen). Mae'r Castell yn agored o 10-6. £1.60 i oedolion ac 80c i blant.

2. Y Ganolfan Dinesig.
Gwaith pum munud o gerdded i'r gogledd o'r Castell drwy ddefnyddio'r twnel o dan y Boulevard de Nantes (Nantes yw gefeilldref Caerdydd). Yno gwelwch Neuaddau'r Ddinas a Chyngor Morgannwg Ganol, y Colegau, Y Swyddfa Gymreig a'r Amgueddfa Genedlaethol (ar agor o 10.00 i 5.00 bob dydd, mynediad am ddim).

3. Parc yr Arfau.
Pum munud o gerdded eto o'r Castell i gyrraedd gatiau Gwyn Nicholls, ond mae gwell golygfa i'w gael o bont y Taf.

4. Amgueddfa Diwydiant a Môr.
Yno mae peiriannau , cerbydau a lluniau yn portreadu hanes Caerdydd a'r cymoedd o'i chwmpas. Taith bws (rhif 9 o waelod Heol Eglwys y Santes Fair) ar hyd Heol Bute i gyfeiriad y dociau. Saif yr amgueddfa newydd ar y chwith ym mhen pella'r stryd. Crwydrwch yr ardal i weld yr hen Gyfnewidfa Lo a'r adeiladau a godwyd pan oedd Caerdydd yn ei hanterth. Mynediad am ddim i'r Amgueddfa.

5. Eglwys Gadeiriol Llandaf.
Taith bws(33 neu 25) o Heol yr Eglwys Gadeiriol ger maes yr Eisteddfod, i Landaf. Ar ôl cyrraedd y pentref, cerddwch heibio siopau bychain y Stryd Fawr i faes yr Eglwys.

6. Castell Coch
Adeilad sy'n debycach i un o "chateaux" y Rhein na'r cestyll Almeinig eu hunain!cymerwch Ffordd y Gogledd o ganol y dref gan ddilyn yr arwyddion i Ferthyr nes cyrraedd drafffordd yr M4. Yna trowch am bentref Tongwynlais a throwch i'r dde oddiyno i'r Castell

7. Amgueddfa Werin San Ffagan.
Ar agor o 10.00 tan 5.00. Mynediad 40c i oedolion a 20c i blant. Cymerwch bws rhif 32 o'r orsaf bysiau. Wrth deithio mewn car cadwch i'r chwith yng nghanol pentref San Ffagan a throwch i'r dde cyn cyrraedd y rheilffordd. Gerddi hyfryd, a lleoedd bwyta.

8. Neuadd Dewi Sant.
Byddwch yn gyfarwydd â'r Neuadd am mai yno y cynhelir y Cyngherddau, ond chwiliwch am ddau beth arbennig yn yr adeilad. Yn gynta' plât ar y wal yn y cyntedd sy'n nodi llwyddiant Cymry Caerdydd yn "Bwrlwm Bro" yn Eisteddfod Llangefni ym 1983 a hefyd y ffenestri lliw ar lefel 3, rhodd dinas Stuttgart yn yr Almaen, i'r ddinas ym 1985.

9. Clwb Ifor Bach.
Os byddwch chi'n flinedig, yn sychedig ac yn hanner llwgu ar ôl Eisteddfota neu ymweld, chwiliwch am Glwb Ifor Bach, sy' bellach yn rhan pwysig o fywyd Cymraeg y Ddinas. Yno cewch luniaeth canol-dydd neu yr amser rhwng yr Eisteddfod a'r cyngherddau neu ddramau. Mae croeso mawr i deuluoedd cyfan fwyta yno ar yr adegau hynny, ac ar ôl i'r plant fynd i'w gwelyau, bydd yno adloniant hwyr ar gael. Saif y Clwb yn Heol Womanby (tro o Heol y Castell rhwng Heol Porth y Gorllewin a Heol Eglwys y Santes Fair) a'r drefn yw - pwyso'r botwm ar y drws, aros, gwrando. Fe ddaw llais o'r dirgel i'ch cyfarch, a bydd hefyd gofyn i chi roi eich henw i gael mynediad.

Hwyl i chi!





Rhowch gynnig ar y gwyliau sydd ar garreg eich drws.
Rhowch gynnig ar GYMRU'R GWYLIAU – saith can milltir o arfordir di-ail a llu o ganolfannau a gweithgareddau sy'n gwneud yn fawr o harddwch Cymru.
Rhowch gynnig ar GYMRU'R GWYLIAU . . . mae'n wahanol iawn i'ch Cymru chi.




Anfonwch neu ffoniwch am daflen liwgar yn cynnwys manylion llety, yn rhad ac am ddim.
**Bwrdd Croeso Cymru, Adran YC2**
**P.O. Box 1, Caerdydd, CF1 2XN.**

Enw ____________________

Cyfeiriad ____________________

CYMRU
Bwrdd Croeso Cymru Wales Tourist Board

# BWRTWE BWS!

Y mis hwn fe ddechreuwn ar gyfres newydd yn olrhain tarddiad enwau ardaloedd a strydoedd Caerdydd. Duncan Pugh yw'r awdur, dysgwr sy'n byw yng Nghaerdydd. Dyma'r bennod gyntaf yn yr hanes - hanes enw Cowbridge Road a Chroes Cwrlwys.

MAE LLAWER O BOBL, Cymry Cymraeg yn arbennig yn, meddwl mai Caerdydd yw'r fwyaf Seisnig o holl drefi Cymru. Ond i'r neb fo'n barod i chwilio yn llyfrgelloedd y ddinas canfyddir cyfoeth Cymreictod y ddinas gynt, na chlywir sôn amdano yn ysgolion y ddinas nac ar y cyfryngau lleol.Sylwer er enghraifft ar ardal Cowbridge Road.

Sawl un sy'n gwybod mai'r olaf o chwech enw a fu ar yr heol hon yw'r enw presennol? Mae'n hen heol,yn mynd yn ôl i gyfnod cyn y Rhufeiniaid, a bu'n brif ffordd fasnach, bryd hynny, ar draws de Morgannwg. Y Rhufeiniaid a balmantodd yr hen sarn tua 75 O.C. - yn ôl fhynafiaethwyr y 19eg ganrif, fel Iolo Morgannwg. Eu henw nhw arni oedd "VIA IULIA MARITIMA": enw mawreddog iawn, ond pa mor ddilys, tybed?

Ond gwyddom i'r Rhufeiniaid gael crasfa gan y trigolion yma, y Silwriaid ,ac felly roedd eisiau ffordd i'w milwyr y gallen nhw ei hamddiffyn ac a fyddai'n rhydd rhag cynllwynio.(Roedd syniadau tebyg gan yr Americanwyr yn VietNam).

Mae "CAWSI CRIBIN",enw'r ffordd yn ystod yr Oesoedd Canol cynnar yn ei ddisgrifio'n weddol dda:tardda'r elfen "cawsi" o'r gair Norman-Ffrangeg sy'n golygu "sarn", ac mae'n rhedeg ar hyd grib greigiog tebyg i asgwrn cefn.

Yn ddiweddarach yn y Canol Oesoedd fe enwyd "Cawsi Cribin" yn "THE PORTWAY" gan y Saeson - roedd porthladdoedd Morgannwg o bwys fel canolfannau i lwytho'r llongau a gyflenwai ymgyrchoedd Lloegr yn Iwerddon. Er hynny Cymreigiwyd The Portway i "Y BWRTWE" - felly roedd y rhan fwyaf o bobl y cylch yn galw'r lle mae enwau caeau yn y Fro yn cyfeirio at Bwrtwe hyd heddiw. Yn y cyfamser collodd y ffurff Seisnig ei boblogrwydd (trwy ddifyg defnydd efallai) ac fe(i disodlwyd yn Saesneg gan y Cowbridge Rd. presennol.

CROES CWRLWYS

Yr hen enw ar hon oedd "CROESHEOL" - yn Saesneg "THE CROSSWAY" - ac yn wir dyw hi ddim wedi colli'r nodwedd yma hyd heddiw! Yn y 19eg ganrif defnyddid enw fferm gyfagos ar y groesffordd sef "CULVERHOUSE", enw a gofnodwyd gyntaf yn 1533. Ei ystyr yw "colomendy" ac y mae'r ffurf "CWRLWYS" yn llygriad Cymraeg ohono. Cyn Harri'r VIIIfed a'i Brotestaniaeth roedd gan y Cymry barch mawr at y groesffordd, fel sydd yn Llydaw hyd heddiw. Byddai croes fach ger sawl un ac weithiau ffynnon fechan wedi'i chysegru. Os eir ymlaen fe welir gyferbyn a mynedfa'r fynwent orllewinol y llain o dir a elwir "THE SANCTUARY". Erbyn hyn does neb yn rhy sicr o darddiad yr enw - y cwbl a wyddom ni yw bod nifer o dai yma gynt ar gyfer gweision ffermydd. Efallai y cysylltwyd yr enw a'r "SAINT'S WELL" a geid gynt yn "CYNTWELL" yma yn ymyl Cwrt yr Ala Rd. a Caerau Lane. Er na welwyd y ffynnon ers tro na'r nant fach (Nant Garw arall) a lifai ohoni, ni thynnwyd y capel bach cyfagos i lawr hyd ganol saithdegau'r ganrif hon. Cafodd y cyfan ei falurio gan y tarw dur a'r ystadau tai..

Er nad oes ffurf Gymraeg i'r enw Cyntwell, dylid sylwi mai enwau Cymraeg a ddefnyddid hyd y ganrif ddiwethaf yng nghyffiniau Caerdydd. Ac mae rhai enwau wedi goroesi yn eu ffurf dafodeithol hyd heddiw - er mai Saesneg yw iaith pawb erbyn hyn.Bydd pobl y Caerau,er enghraifft,yn dweud "Caera" yn union fel yr yngenir yn y Wenhwyseg Gwenhwyseg ydi enw'r dafodiaith leol, mae'n debyg i'r Gernyweg a'r Llydaweg. Mae'r ddwy iaith, a thafodiaith Maldwyn hefyd, yn rhannu'r un nodweddion.

A'R MIS NESAF...FE FYDD DUNCAN PUGH YN OLRHAIN HANES Y CAERAU A THRELAI.

# BWTH RUTH

NEWYDD DDOD NÔL o'r Gogledd lle bum i'n mwynhau brwdfrydedd trigolion ardal Penrhosgarnedd, Bangor. Noson lansio "Gemau'r Gegin" oedd yr achlysur - llyfr coginio hyfryd ag yn gyfrwys iawn mi drefnodd y Pwyllgor prysur noson o gemau hwyliog yn ogystal â sicrhau fod y llyfr coginio yn em o un ac yn coroni'r noson.

Roedd yna berfformiadau gan blant Ysgol y Faenol a Band Pres y Bont. Cystadleuaeth arlunio blant dan 11, ac un arall i rai dros 11. Prawf pendant fod dynion Penrhos yn rai amryddawn iawn oedd y gystadleuaeth addurno cacen siocled, ac wedi i'r dynion lyfu'r siocled oddiar eu dwylo cafwyd cystadleuaeth gorawl rhwng 3 rhan o'r ystafell - a'r darn prawf yn gan sgwennwyd yn arbennig ar gyfer y noson gan y Parch J.Gwilyn Jones. Y cyfan wedi ei lywio a'i gyflwyno'n proffesiynnol a hwyliog gan Wil Parry Williams, Prifathro Ysgol Treborth, Bangor - a dyna fi wedi mynd i ysbryd y darn ers rhai wythnosau ag erbyn hyn yn barod am Steddfod yr Urdd, sy'n cael ei gynnal yn fy ngardd ffrynt, bron â bod, yng Ngerddi Soffia.

Pan ddaeth Steddfod yr Urdd yma ym 1965 mi rown i ar fy ail flwyddyn yng Ngholeg Cyncoed ac yn ran o'r tim o fyfyrwyr o bob cwr o Gymru fu'n helpu gyda'r Coroni a'r Cadeirio. Mi roedd y Steddfod i'w chofio i mi fel criw o fyfyrwyr heb son am ser yr wythnos - Gerallt Lloyd Owen, Bardd y Gadair, a Robin Gwyndaf yn cael ei goroni.

"Hawdd iawn proffwydo dyfodol disglair i'r bardd hwn" meddai I.B. Griffith wrth sgwennu rhagair i "Ugain Oed a'i Ganiadau", llyfr o gerddi Gerallt Lloyd Owen, gyhoeddwyd yn yr un flwyddyn - a dyma ddeudodd Gerallt ym 1963 am "Brofiad":

"Nid oes i'r ifanc brofiad
fel yr hen
Am mai'r blynyddoedd sy'n
rheoli'r drefn...
Nid oes na wyddoch yn eich
profiad chwi,
Ond o'r anghydfod y daw'n
profiad ni"

Beth bynnag, daw'r Eisteddfod i chi - gobeithio cewch chi hwyl!



CYMDEITHAS Y DYSGWYR

**Gwahoddwn chi'n gynnes iawn i Gyfarfod Olaf y Tymor**
**CYMDEITHAS Y DYSGWYR**
**Tŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon**
**8.00 o'r gloch**
**Nos Fercher Mehefin 12**

**Noson yng nghofal Basil Davies**
**Croeso i bawb!**

CYSTADLEUAETH? Braf oedd clywed am benderfyniad dewr trigolion Taf-Elai i sefydlu papur bro. Edrychwn ymlaen at gynnwys erthygl am y cynlluniau ac weld y rhifyn cyntaf. Dymunwn yn dda i'r sawl fydd yn gorfod llafurio i'w gynhyrchu!


# sefydlu T.J.

'ROEDD BETHLEHEM, Gwaelod-y-Garth dan ei sang ar bnawn Sul 21ain o Ebrill pan gynhaliwyd Gyfarfod Sefydlu y Parchedig Ddoctor T.J. Davies yn weinidog rhan-amser ar yr Eglwys. Fel y byddid yn ei ddisgwyl gyda T.J. roedd eisioes wedi cychwyn ar ei weinidogaeth wythnosau cyn hyn ond dyma'r cyfarfod ffurfiol i'w gyflwyno fel gweinidog ym Methlehem.

Roedd cyfarfod y prynhawn dan lywyddiaeth y Parchedig Ifor Rees, a chymerwyd y rhan agoriadol gan rai o ieuenctid yr Eglwys, sef Kate Davies a Mathew Oehler.

Ar ran Undeb Annibynwyr Cymru, roedd yr Ysgrifennydd y Parchedig Derwyn Morris Jones yn gyfrifol am y Sefydlu, a chyflwynwyd T.J.ar ran y Prebyteriaid i frawdoliaeth Annibynia gan y Parchedig D.H. Owen. Cyn diwedd y cyfarfod roedd y gynilleidfa i gyd yn wybyddus o natur wardrob T.J. yn ogystal â thyfiant ei datws a stat ei ardd, a chafwyd un cyfrinach bellach amdano gan y Parchedig D.Eirian Rees ar ran Cyfundeb Dwyrain Morgannwg. A wyddech chi mai fel "Club Owner" yr adnabyddir ef ar gerdyn prynu mewn warws yng Nghaerdydd....?

Yn ystod y gwasanaeth hefyd y cafwyd hanes yr Alwad gan Ysgrifennydd Bethlehem, Robin Bateman -"Pam na ddowch chi atom ni?", ac hefyd cafwyd cyfarchion ar ran Bethlehem gan Mr.T.W. Thomas, Pentyrch. Yn wir, o fewn amser byr iawn cafwyd crynodeb twt o hanes yr Achos ym Methlehem o'r cychwyn cyntaf hyd at y presennol gan ddwyn i gof yr amser cynhyrfus o dan weinidogaeth R.G. Berry. Manteisiwyd hefyd i grybwyll dyled



Bethlehem a Chymru gyfan i Huw Ethall am ei gyfrol arbennig ar R. G.Berry a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Roedd cyfarfod yr hwyr dan lywyddiaeth y Gweinidog, a gwahoddwyd y Parchedig Cynwil Williams, Heol y Crwys, i draddodi'r bregeth.

Rhwng y ddwy oedfa, roedd te croeso i'w gael yn y festri, ac am yn ail a llymaid o de a bara menyn cafwyd cyfarchion ar ran merched Bethlehem gan Eleri Jones, a sgwrs hamddenol gan Mari Jams, Llangeitho ar ran pobl Sir Aberteifi, ie, y cwbl ohonynt.

Cafwyd prynhawn hynod o hwylus a bendithiol a dymunwn yn dda i'r Gweinidog a'i braidd yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

(Ac os mai mewn ffigyrau moel mae mesur llwyddiant mewn unrhyw faes pa well ystadegau na'r canlynol i weinidog ar ei Sul cyntaf wedi'r sefydlu - bedyddio pump o fabanod, a phump arall y Sul canlynol, a derbyn saith o aelodau newydd i'w eglwys!)

Y DRYCH
(anrheg Penblwydd merch yn ddeunaw oed).

Gwêl yma dy hun, -
gwiw adlewyrchiad
dy fer bererindod,-
cyn i'r hen elyn twyllodrus
dynnu ei fys dichellgar
ar draws dy dalcen,
a cherfio ei ôl
ar dy ruddiau
mewn llinell, a chysgod
a chraith.
Gwêl yma yr afiaeth
yn ffrwydro drwy argae
cronfeydd dy ynni hyderus
a thonnau dihysbydd
dy egni
yn llamu i'th lygaid
pefriol.

Ac yna
disgyn o'r dyfroedd
i dawel lonyddwch
dy feusydd ffrwythlon,
a'r afon, bryd hynny,
yn ddistaw ymdroelli,
dyfnhau ei sianeli,
erydu
a chrafu
drwy wastraff rhagfarnau
a hen gonfensiynnau
blynyddoedd a fu,
a chodi
torlannau newyddion,
unioni
cyfeiriad dy ddyfodol.

A chyrraedd o'r diwedd
gyflawnder, diweddglo,
pen.
A chael yno wedyn
yr un hen ysbryd
gwyllt, gobeithfawr
yn dal i wingo
yn dy waed.

Gwêl yno dy hun,
Gariad.

Elaine Morgan


## FFARWELIO AG ANN PARRY



Mrs.Ann Parry

FFARWEL: Diwedd tymor y Pasg bu rhieni, cyn rieni, plant a ffrindiau Ysgol Feithrin y Waun a'r cylch yn ffarwelio â Mrs.Ann Parry. Trefnwyd noson fel gwerthfawrogiad o'i gwaith yng Ngholeg Colchester Ave. pan gyflwynodd David Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Rhieni, map Speed o Sir Benfro iddi. Bore Iau canlynol cawsom barti i'r plant a Mrs.Parry yn yr ysgol. Cyflwynodd Llinos Dafydd dusw o flodau i Mrs.Parry oddiwrth y plant. Bu Mrs.Parry yn athrawes ddiwyd, hwyliog a gweryhfawr am ddair blynedd ar ddeg a bydd colled ar ei hol. Dymunwn yn dda iddi hi, Mr.Parry a'r teulu ar ei hymddeoliad. Hefyd dymunwn yn dda i'r athrawes newydd Mrs.Kuona Thomas.


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367




RHEOLWR CLWB IFOR BACH

Person i reoli'r bar a'r Clwb naill ai'n amser llawn neu'n rhan amser.

Manylion pellach oddi wrth:
Clwb Ifor Bach
11 Heol Womanby
Caerdydd
Ffôn: 32199 neu 497414

# GWOBRAU RHYFEDDOL!

DAETH CAIS I LAW oddiwrth y Pwyllgor Golygyddol i osod cystadleuaeth yn y golofn farddol fisol hon ar gyfer pawb, yn ddarllenwyr cyson ac yn Eisteddfodwyr. Cyfle i "feirdd ifanc y genedl" ac i rai sy'n pwdu am eu bod yn rhy hen i gystadlu yng ngerddi Soffia. Felly darllenwch y golofn HON.

Mae dwy gystadleuaeth:

1. Englyn Testun "Caerdydd"
   Beirniaid: T.Arfon Williams
2. Gorffen Limrig "Rhyw ddiwrnod yng Ngerddi Soffia"
   Beirniaid: Islwyn Jones

Y cyfansoddiadau i mewn i babell Byrti Bws ar y maes, neu i unrhyw un o'r bwrdd golygyddol erbyn amser cinio dydd Sadwrn.

Cyhoeddir yr enillwyr yn rhifyn nesa'r Dinesydd.

Gan fod Eisteddfod yr Urdd yma, cyhoeddwn y mis hwn ychydig o waith rhai o bobl ifainc Ysgol Glantaf. A charai'r golofn ddiolch i atgrawon ymroddedig yr adran Gymraeg, Janet Ogwen a Peter Griffiths am eu cymorth parod wrth gasglu deunydd ar gyfer y golofn.

Enillodd Ffion Jenkins y gadair yn Eisteddfod yr ysgol yn ddiweddar. Mae'n perchen ar y ddawn honno sydd mor brin ymysg ysgrifennwyr Cymraeg, y ddawn i fod yn gynnil. Dyma soned o'i eiddo a ddaeth i law:

Breuddwyd Llywelyn

Rhoist â'th arweiniad urddas cenedl gre
I'n teidiau gynt a'u llwythau anghytun,
Dy ddelfryd oedd eu dwyn o dan un tre
A chreu o'r llanast llwyd o'th gwmpas un
Wlad, un bobl ac un iaith yn winllan werdd
- Dy obaith oedd i ni'r genhedlaeth hon
Gael profi gwefr yr undod fu ar gerdd
Pan blygai'r tywysogion oll o dan dy fron.
Ond beth pe ddetit nawr i Gymru'n ôl
A gweled trychinebus stad eu hynt
Dy freuddwyd fawr yn deilchion yn ei chôl
A phroffwydoliaeth colled yn y gwynt
A deimlet ti mai ofer oedd dy ffydd,
A welet Gymru ar fin colli'r dydd?

Gan newid y cywair yn llwyr, gosodywd cystadleuaeth Limrig ar gyfer disgyblion yr ysgol. Y dasg oedd gorffen limrig oedd yn dechrau a'r geiriau

"Aeth merch (neu fachgen) o Ysgol Glantaf".

Cafwyd ymateb syfrdanol i'r gystadleuaeth, a sawl un gwych ymysg y cyfansoddiadau. Dyma'r ddau limrig a ddaeth uchaf yn y gystadleuaeth:

Aeth bachgen o Ysgol Glantaf
I fecso "Pa swydd tybed gaf
'Rol gadael yr ysgol
Carwn wyliau wythnosol
Rwy'n gwybod - yn athro yr af."
Euros Thomas.

Aeth merch fach o Ysgol Glantaf
I Canton ar ddiwrnod o haf:
Bwytaodd Chop Suey
Ac aeth hwnnw reit thrw-hey
Ar fy llwey fu'r un ferch mor glaf.
Rhodri Ogwen.

Y Wenhwyseg yw tafodiaeth gynhenid yr ardal hon. Er bod iddi draddodiad farddoniaeth lafar gref, ychydig o ganu caeth fu ynddi. Da felly oedd gweld yr englyn rhyfedd hwn wedi ei sgriblan ar gefn pecyn o Embassy Regal Extra Mild yn un o dafarnau llai ffasiynol y dre:

Ar gaia' Soffia odd ffws - y bardd
Bach o'i gatar wetws,
A'i iria'n dachra corws
"Hurt o beth yw Byrti Bws."

# TRI O'R UN YSGOL

PAN CHWARAEODD Ysgolion Uwchradd Cymru (dan 18 oed) yn erbyn ysgolion Japan yn Aberystwyth, nos Fercher Ebrill 17, torrwyd cwys newydd yn hanes rygbi Ysgol Rhydfelen. Roedd tri o'r ysgol honno yn cynrychioli ei gwlad - camp go arbennig, mae'n siwr.

Cefnwr y tim rhyngwladol oedd Gwilym Beech, capten tim cyntaf yr ysgol eleni, a chapten tim yr ardal hefyd. (Ers chwarae Japan, chwaraeodd Gwilym yn erbyn Ysgolion Lloegr i ennill ei "gap").

Canolwr tim Cymru yn Aberystwyth oedd Philip Hope. Cafodd gem deilwng iawn i ddangos ei ddawn ac i brofi ei fod yn llawn deilwng o'r anrhydedd.

Y trydydd bachgen o Rydfelen i gynrychioli Cymru yn erbyn Japan oedd Mark Spiller, yr ail reng. Meistrolodd flaen y llinell i sicrhau digon o feddiant i olwyr y crysiau cochion. Gan sylweddoli bod blwyddyn arall gyda Mark yn yr oedran hyn, mae ei obeithion am "gap" y flwyddyn nesa' yn ffafriol iawn.

Canlyniad y gem oedd llwyddiant i Gymru o 25 i 22.



Philip Hope   Gwilym Beech   Mark Spiller


## Cynorthwy-ydd Cynhyrchu dan Hyfforddiant

Mae arnom angen Cynorthwy-ydd Cynhyrchu Dan Hyfforddiant i weithio yn ein stiwdio yng Nghaerdydd.

Golyga'r swydd hon weithio gyda'r cynhyrchydd/cyfarwyddwr yn yr oriel gynhyrchu ac yn y swyddfa.

Dylai'r ymgeiswyr feddu ar bersonoliaeth allblyg, y gallu i drefnu yn effeithiol a'r ddawn i weithio yn hamddenol heb gyfarwyddyd mewn amgylchedd brysur.

Dylid gallu teipio 50 gair y munud yn gyflym a chywir, ac mae gwybodaeth drylwyr o'r iaith Gymraeg yn angenrheidiol.

Cyflog yn ystod hyfforddiant: £7,044 y flwyddyn.

Cyfleusterau gweithio ardderchog, ynghyd â chynlluniau pensiwn a salwch etc.

Dylai ymgeiswyr cymwys, meibion neu ferched, anfon am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig, a nodi'r cyfeirnod: DIN/447, at Y Rheolwr Staffio, HTV Cymru, Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF5 6XJ.

YR YDYM YN GYFLOGWYR CYFLE CYFARTAL

HTV

HTV CYMRU


Y Gorau yn Gyson i Gymru

# Cynhyrcha HTV Cymru amrywiaeth mawr o raglenni teledu ar gyfer S4C

Daw ein rhaglenni o bedwar ban y byd yn ogystal ag o Gymru – o'n canolfannau teledu yng Nghaerdydd a'r Wyddgrug, a thrwy gyfrwng ein hunedau, ein cynhyrchwyr a'n cyflwynwyr, ym Mangor a Chaerfyrddin. Ymunwch â'r Cyffro Teledu drwy raglenni

HTV CYMRU ar S4C

Y Gorau yn Gyson i Gymru




THE NATIONAL QUESTION AGAIN: Welsh Political Identity in the 1980s. Gol.John Osmond: Gwasg Gomer: tud.xlvi a 324: £6.00.

CAFWYD CROESO cyffredinol i'r gwahanol, astudiaethau ar hanes a gwleidyddiaeth Cymru a gyhoeddwyd yn sgil methiant datganoli ym 1979, ac yn sicr mai gwir angen deall y rhesymau dros y methiant hwnnw, a cheisio'u gwared, cyn y gellir camu'n hyderus tua'r dyfodol. Mae'r gyfrol hon eto'n gyfraniad i'r drafodaeth yn cynrychioli safbwyntiau aelodau o'r gwahanol bleidiau, o'r Toriaid i'r Comiwnyddion, ynglŷn â chyflwr presennol gwleidyddiaeth Cymru, yn ogystal â dadansoddiad ambell i sylwebydd gwleidyddol a chelfyddydol ar y cyflwr hwnnw.

Mae'r gyfrol yn deillio o gynhadleddau a gynhaliwyd yn y Fenni ac Aberystwyth ym 1978/79 ac a fnychwyd gan nifer o haneswyr, gwleidyddion a sylwebyddion gwleidyddol. Un gwendid amlwg o'r cychwyn yw'r nifer o'r rhai a fynychodd y cyfarfodydd na chynhwysir eu cyfraniadau - yn eu plith Emyr Price, Deian Hopkin, Dai Smith a Gwyn A.Williams a Phil Williams. Tuedda'r gyfrol o'r herwydd i adlewyrchu'n ormodol farn yr aelodau o'r gwahanol bleidiau sy'n cyfrannu, yn hytrach na chreu unrhyw ddarlun crwn, cyfan o gyflwr gwleidyddol Cymru'n yr 80au. Wedi dweud hynny, mae'n sicr bod angen cael ar glawr syniad o'r modd y mae'r prif bleidiau Prydeinig yn ystyried sefyllfa Cymru ar ôl 1979.

Y cyfraniadau pwysicaf yw'r rhai cyffredinol, yn arbennig astudiaeth Denis Balsom o batrymau pleidleisio Cymru; ymdriniaeth Raymond Williams o'r gwahaniaethau diwylliannol a gwleidyddol rhwng Cymru a Lloegr; cymhariaeth Owen Dudley Edwards o genedlaetholdeb Cymru, Yr Alban ac Iwerddon ac ymdriniaeth Ned Thomas o'r ddelwedd o Gymru a bortreadir mewn llenyddiaeth ac yn y cyfryngau. Mae'r cyfraniadau hyn oll yn cynnig sylwadau adeiladol ar y sefyllfa yng Nghymru, ac er mai pwysleisio'r rhaniadau o fewn Cymru mae Denis Balsom, mae ei astudiaeth fanwl o arferion pleidleisio, a'u cysylltiad ag ymdeimlad y Cymru Cymraeg a di-Gymraeg o Gymreictod yn cyfrannu llawer at ddarlun gwrthrychol o Gymru yn yr wythdegau.

Yn yr adran "Party Lines" ceir barn aelodau o'r gwahanol bleidiau ar wleidyddiaeth Cymru'r 80au, a'r hyn a bwysleisir yma'n fwy na dim yw'r rhaniadau sylfaenol rhwng y pleidiau yng Nghymru, a'r diffyg gobaith am gonsensws a allai gyflwyno darlun unedig o gymru i weddill ynysoedd Prydain. Er methiant datganoli mae'r prif bleidiau'n amlwg yn gweld achubiaeth Cymru o fewn y drefn Brydeinig, a'u hagwedd yn amrywio o optimistiaeth dall y Toriaid i rwystredigaeth Plaid lafur a rannwyd rhwng yr arweiniaeth sefydliadol a'r canghennau lleol a wêl bod angen sosialaidd o fath newydd i'w hamddiffyn rhag economi'r farchnad rydd a chyfalafiaeth y cwmniau rhyngwladol.

Ceir erthyglau mwy positif gan Dafydd Elis Thomas a Phil Williams o Blaid Cymru, a sylweddoliad bod yn rhaid i'r Blaid ganolbwyntio llai ar San Steffan a rhagor ar wir anghenion cymunedau Cymru. Gwêl Robert Griffiths a Phylip Rosser hefyd yr angen i greu gweledigaeth sosialaidd newydd ar gyfer Cymru. O leiaf mae'r cyfranwyr hyn yn gweld bod methiant 1979 yn gofyn am weledigaeth newydd, ac nid parhad yn yr un hen rychau.

Ceir ambell i nodyn gobeithiol sy'n awgrymu bod y Cymry, yn Gymraeg a di-Gymraeg yn cadw rhyw fath o hunaniaeth yn wyneb cyrchoedd Thatcher. Roedd galwad TUC Cymru'n ddiweddar am ragor o annibynniaeth rhag y TUC'n ganolog yn awgrym o hynny.

Methiant y llyfr yw'r hyn na cheir yno. Ni cheir llais yr un ferch, er cymaint eu rhan ym mrwydr y glowyr er enghraifft. Mae llais y mudiadau iaith hefyd yn absennol, a phrin yw'r cyfranwyr o unrhyw liw o ogledd-orllewin Cymru. Does dim cynrychiolaeth 'chwaith gan y lleiafrifoedd ethnig. I raddau helaeth edrych ar Gymru drwy wydrau'r pleidiau Prydeinig a wna'r gyfrol hon, ac os oes un peth i'w brofi gan refferendwm 1979, y ffaith na ddaw achubiaeth o San steffan yw hynny.

IWAN LLWYD WILLIAMS.

# COFIO EMRYS

CYNHALIWYD CWRS Penwythnos Cymdeithas Ddawns Werin Cymru i fwrw'r Sul Ebrill 12-14 yng Ngholeg y Brifysgol, Dewi Sant, Llanbed. Yn ôl yr arfer (a sefydlwyd gan ein diweddar Lywydd, y Parchedig W.Emrys Cleaver, yn nyddiau cynnar y Gymdeithas) roedd gwasanaeth crefyddol syml ar fore'r Sul yng Nghapel y Coleg. Gwasanaeth i Goffhau Emrys Cleaver oedd hwn eleni. Dawnswyr Cymru oedd yno yn coffhau a thalu teyrnged. Yn ystod y gwasanaeth arweinwyd y deyrnged yn anerchiad Cadeirydd y Gymdeithas, Y Bon.Dewi Humphreys, Coedpoeth, Wrecsam. Darllenwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg addasiad modern o'r Drydedd Salm ar Hugain, gan Mrs Joan Huw Jones(Ysgrifenyddes CDdWC) a Mrs Moira Humphreys (Cyd Arweinydd Dawnswyr y Daith). Canwyd yr emyn "O fy Iesu Bendigedig" gan Andrew O'Neill (aelod o Ddawnswyr Nantgarw) ac Arwel Morgan (Llanelli a Llundain) a'n harweiniodd mewn gweddi. Arweinwyd a lediwyd canu'r emyn "Diolch i Ti, yr Hollalluog Dduw" gan Mrs Eirlys Phillips (Arweinwraig Dawnswyr Talog, Caerfyrddin). Cafwyd gwasanaeth urddasol syml, hyfryd, a'r capel hyfryd yn taenu mantell arbennig ar yr achlysur. Roedd tristwch yng nghalon nifer ohonom - yn arbennig y rhai ohonom a gafodd y fraint o adnabod Emrys yn dda - tristwch yn ymgiprys gyda diolchgarwch - diolchgarwch am yr holl a wnaeth ac a fu yn ystod ei fywyd. Cofiwyd am ei weddw Glenys a'i ferch Ann a'i theulu bach yn ein gweddiau ac addunwn iddynt nawdd a nerth i fwrw'i hiraeth.

Alice E.Williams
Swyddog Cyhoeddusrwydd C.Dd.W.C.


# YN EISIAU

YN EISIAU
Erbyn Mis Medi:
fflat neu ystafell
mewn ty ar gyfer
myfyrwraig ail
flwyddyn.
Ardal Llandaf neu
Fairwater.
Cysyllter â 560395

# TACLO'R PREMIER

EFALLAI BOD rhai ohonoch yn cofio am y pryder a fu o fewn meddyliau rhai aelodau Clwb Cymric ar ddechrau'r tymor hwn pan y sylweddolwyd mai yn yr Adran Gyntaf yn hytrach nag yn yr Ail Adran y byddem yn chwarae eleni. Ni fu canlyniad y gêm gyntaf, sef colli o 10 gôl i 2 yn ddim i help i leddfu'r pryder hwnnw chwaith. Ond dyma ni wedi cwblhau'r tymor bellach, a choeliech chi byth, wedi dod yn ail yn yr Adran Gyntaf a thrwy hynny sicrhau esgyniad am yr ail flynedd yn olynol. Byddwn, ac fe fyddaf i a Huws a Ken Passmore ac Eynon a phob henafwr arall sy'n perthyn i'r Clwb yn chwarae yn yr Adran Premiere y tymor nesaf.Teyrnged felly i frwdfrydedd, medr a dyfalbarhad pawb sydd wedi gwisgo crys gwyrdd y Clwb yn ystod y tymor, ac yn arbennig felly i'r Capten Huw Dafis a'i is-gapten Elwyn Roberts am eu harweiniad. Huw fydd yn cael y fraint o arwain y Clwb yn y fenter fwyaf yn ei hanes yn ystod y tymor nesa hefyd, a'r tro hwn yn cael cymorth ei is-gapten newydd, Emyr Roberts.

Mae'r ffigyrau moel - ystadegau mae rhai pobl yn eu galw - yn siarad cyfrolau am lwyddiant y tymor a fu, gan golli chwech yn unig o'r chwech-ar-hugain gêm yn y gynghrair. Pedair yn gyfartal, ac ennill y gweddill. Sgoriwyd chwech deg ag un o goliau gyda pedwar deg pump yn erbyn. Unwaith yn unig y collwyd yn 1985. Dewiswyd Ken Passmore yn Chwaraewr y Flwyddyn a dyna goroni tymor eithriadol iddo - mae hwn yn gwella gyda'r blynyddoedd.

Rhag ofn i'r sylw i gyd gael ei roi i'r tim cyntaf, rhaid hefyd cofio am lwyddiant yr ail dim. Am y tro cyntaf yn hanes yr Aelwyd toedd na ddim pryder ynglŷn â sicrhau digon o bwyntiau ar ddiwedd y tymor i sicrhau ei lle yn y gygnhrair. Yn wir roedd yr Aelwyd yn eistedd yn gyfforddus yn y pedwerydd safle y tro yma, ac hefyd wedi cael y clod a'r bri o gyrraedd rownd gyn-derfynol Cwpan ei gynghrair, gan golli ar giciau cosb yn unig wedi amser ychwanegol. Pob lwc i Twics felly y flwyddyn nesaf yn arwain yr Aelwyd unwaith yn rhagor, a diolch i Richard Parsons am ei gymorth fel is-gapten. Hefin Rowlands fydd yn cynorthwyo gyda'r gwaith y tymor nesaf. Cyflwynwyd tlws Chwaraewr y Flwyddyn yn rhengoedd yr Aelwyd i Dave y golgeidwad hynaws.

Yn ystod y cinio blynyddol cyflwynwyd tlysau i'r capteiniaid am eu gwaith yn sicrhau un-ar-ddeg o chwaraewyr ar gyfer pob gem yn ystod y tymor - gwaith anodd ar ambell i benwythnos.

Gweddill y swyddogion am y flwyddyn sydd i ddod yw:
Cadeirydd - Rhodri Gwynn Jones
Ysgrifenydd (1af)- Emyr Roberts
Ysgrifenydd (2il) - Twics
Trysorydd - Elwyn Roberts
Swyddogion Adloniant - Bags a Chips

Cyn cloi'r busnes peldroed am dymor arall, her i unrhywun sydd yn meddwl ei fod yn ddigon da i chwarae i Glwb Cymric yn y Premiere - dowch atom i'n cynorthwyo.

A thybed a oes cwmni neu gymdeithas neu unigolyn a fyddai'n foidlon noddi'r Clwb am dymor neu ddau - mae angen dillad newydd arnom i'n galluogi i droedio'r maes fel peldroedwyr ac nid fel tinceriaid. Byddai pob help bychan yn ein galluogi i roi hwb mewn ffordd ymarferol i'r Gymraeg yn ein prifddinas. Gyda Chaerdydd yn y Drydedd Adran yn sicr Clwb Cymric fydd prif Glwb y Brifddinas.

YMDDEOLIAD AROLYGES: Roedd Sul y Blodau 1985, yn garreg filltir yn hanes eglwys Heol-y-Crwys. Wedi ugain mlynedd o wasanaeth ffyddlon fel Arolyges Ysgol Sul y plant roedd Miss Eirwen Humphreys yn trosglwyddo'r awennau.

Mae plant yn hoffi canllawiau, ac arweiniad pendant, ac yng nghymeriad unigryw Miss Humphreys cawsant Arolyges a allai reoli'r drygionus heb fod yn gas, hybu'r swil a'r ofnus, a meithrin amrywiol dalentau pob un.

Mae trylwyredd ac ymroddiad yn rhan o gymeriad Eiry, a byddai ei darlleniad a'i stori ar gyfer pob Sul yn gweddu i'r dyddiad a'r achlysur. Hi fyddai'r cyntaf i gyrraedd y festri, ymhell cyn dau o'r gloch, er mwyn trefnu'r llyfrau a'r cyfarparar gyfer y plant. Yn bwysicach, gofalai fod yn gynnar er mwyn cael croesawu'r newydd ddyfodiaid a dysgu eu henwau.

Roedd hi'n athrawes nodedig, ac am flynyddoedd, yn ogystal â'i gwaith fel Arolyges, bu ganddi ddosbarth.

Dymunwn yn dda i'r Arolyges newydd Mrs.Rosalind Williams.


Nest Owen.

Hoffai'r Dinesydd gydnabod caniatad Y Gadwyn i ddefnyddio'r sylwadau uchod, a ymddangosodd mewn teyrnged hwy i Miss Humphreys.


# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Bydd hwn yn fis llewyrchus iawn i chi - yn enwedig yn ariannol. Dylai'r rhai sy mewn dyled ariannol i chi eich talu cyn bo hir.
TAURUS: Cofiwch gymryd mantais o'r lwc dda sy'n pentyrru o'ch cwmpas y mis hwn - os na wnewch chi mi fyddwch ar eich colled. Thâl hi ddim i fod yn ddiog yn awr.
GEMINI: Byddwch yn brysur iawn, yn enwedig ar ddechrau'r mis, yn rhuthro'n wyllt o un peth i'r llall. Cofiwch gymryd hoe fach weithiau.
CANCER: Ar ôl y 10fed o Fehefin mi fyddwch yn llawn ynni a phrysurdeb, a dylai hyn fod yn fis lwcus iawn i chi.
LEO: Dyma'r amser i orffen yr holl jobsus bach sy ar eu hanner a chlirio'r deciau cyn dechrau pennod newydd yn eich bywyd.
VIRGO: Peidiwch â gwastraffu'ch hamser yn mynd ar ôl manion dibwys - mae'n bryd i chi ddatrus rhai o broblemau mawr eich bywyd cyn iddyn nhw fynd yn drech na chi.
LIBRA: Dyma fis ardderchog i ddechrau menter newydd. Ond peidiwch â gorwario a byddwch yn barod i wynebu bil annisgwyl.
SCORPIO: Mae hi'n amser nawr i drefnu at y dyfodol yn bwyllog a chyfrifol. Rhowch mewn i eraill ar y pethau bach os am ennill brwydr fwy.
SAGITTARIUS: Bydd hwn yn fis ardderchog i gymdeithasu - i gysylltu â'r wasg a'r cyfryngau. Peidiwch ag ofni mentro gwneud rhywbeth newydd a beiddgar.
CAPRICORN: Nid dyma'r adeg i fod yn ddiofal na chymysglyd. Rhaid cymryd pob cyfrifoldeb o ddifri - yn enwedig eich cyfrifoldeb i'r teulu. Mis creadigol iawn.
AQUARIUS: Dangoswch mai chi yw'r bos a chymrwch yr awenau - mae hi'n hen bryd i chi wneud - ac mae lwc dda o'ch ochr chi.
PISCES: Bydd eraill yn dibynnu arnoch y mis hwn - yn troi atoch am gyngor. Cyfnod ardderchog i symyd tŷ - neu i ail-wampio'r hen le.



# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 52



GAN MAI RHIFYN yr Eisteddfod yw hwn, mae llawer o'r atebion yn ymwneud a'r Eisteddfod a'r Urdd.

AR DRAWS:

1. Rhifo'r goban rhacsog er mwyn didoli. (10)
8. ".... mae ____ yn tyfu
Ac ambell sbrigyn o
rosmari".(4)
10. "Cofiwn yn awr ein gŵyr enwog" yng ngeiriau'r gan. (6, 4)
11. Ond ____ e' ddim, whare teg i Dai". (4)
12. Ymdrech fawr yw rhoi pob un ohonynt ar waith. (5)
15. "Cyn _____ ag yw y dwyrain oddiwrth y gorllewin ......" (Salm) (5)
18. Y mae'n gwgu. (5)
19. Mae'r wlad yr iraid iawn. (2,5)
20. Gweler 32 ar draws.
21. Trechu a difwyno. (5)
22. Rheol sylfaenol yr abiec? (7)
23. Byddid yn sylwi. (5)
24. Y ddellt yn cyfansoddi amryw o 30. (5)
25. Maent yn codi dyn (a'i bwn) uwchlaw'r ddaear. (5)
28. Gwaith corfeistr (a gof). (4)
31. Anhepgor i bob eisteddfodwr. (6,1,3)

32 a 20. Annogaeth i bawb. (4,1'1,3)

33. Swydd Meistres y Gwisgoedd? (10)

I LAWR:

2. "Sain, cerdd _ ___" (1,3)
3. Clasur o ddawns. (4)
4. Mae digon o egni bywiog ynddo. (5)
5. Nid o Ddyffryn Tanat, er y gellid meddwl hynny. (5)
6. Arwydd ar erwydd. (5)
7. Boncyff y gwyddorau cain yw celf tre fach fyrlymus. (4,1,5)
9. Gwrthrych lliwgar y plant. (6,3)
13. Fe all nwyd fod wedi llwyddo. (7)
14. Cydgordiau'r lleisiau. (7)
15. Nid a i beri newid i'r tafolwyr. (9)
16. Yn hollol haeddiannol yn ôl y clorianwyr. (4,6)
17. Yr hyn sydd arnaf. (5)
18. Gadawodd Olwen ei hol arno. (5)
25. A roddwyd. (5)
26. Cyfarch soniarus. (2,3)
27. Y mae yn dadwisgo. (5)
29. Gweler 30. (4)
30. Mae hwn bob amser yn mynd i 29. (4)

CYSTADLEUAETH RHIF 51.
Derbyniwyd un ymgais ar ddeg, dau â gwallau bach a'r lleill yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd eiddo Myfi Coslett, Y Mynydd Bychan. Yr oedd ganddi nodyn ar yr ymyl yn cyflwyno'r wobr, pes enillasai, i Gronfa'r Dinesydd. Cydnabyddwn ei rhodd gyda diolch. Y datryswyr cywir eraill oedd: Margaret Jones, Heol Betws-y-Coed; A.A.R., Y Barri; Falmai Bryant, Ystum Taf; B.H., Cyncoed; a Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; A.R.R., Abertawe; B.T., Cyncoed; a J.L., Ger-y-llyn.

DATRYSIAD RHIF 51
Ar draws: 1.Cegaid; 5.Gelligaer; 9.Oes y Cerrig; 10.Llaca; 11.Annelwig; 12.Diflwch; 13.Cawg; 15.Fawr gwell; 18.Cofrestr; 19.Soddi; 21.Fflachia; 23.Ymatebaf; 25.Didda; 26.Deintyddion; 27.Atsenid; 28.Llogais.
I Lawr: 2.Edern; 3.Amyneddgar; 4.Dwedwch; 5.Gwrthgyferbyniad; 6.Llygadrwth; 7.Gallaf; 8.Encilfeydd; 14.Aroglaist; 16.Gosgeiddig; 17.Ysbardun; 20.Mantell; 22.Chwarae; 24.Atodi.

CYSTADLEUAETH RHIF 52.
Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg am £5 y mis hwn eto. Enw neu ffugenw a chyfeiriad ar ymyl y Croesair, os gwelwch yn dda, a'i anfon i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd, erbyn Mehefin 15.


holl lyfrau Cymru ynghanol y dref
Oriel
Siop Lyfrau Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl Caerdydd Ffôn: 395548
Catalogau ar gael


O'R WLADFA: Bydd dwy o'r Wladfa yn ymweld â Chymru ac Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd. Daw'r ddwy o'r Gaiman ac yn aelodau brwd o'r gweddill ffyddlon sy'n ceisio cadw cannwyll Cymreictod ynghyn yn y Tir Pell. Croeso Mawr Albina a Valeiri.


MAE BWRDD Golygyddol y Dinesydd yn cadw'r hawl i dalfyrru unrhyw erthyglau neu lythyrau sy'n cael eu cyhoeddi yn y papur.




# PYTIAU

DYWEDDIO: Llongyfarchiadau i Sarah Wyn Jones, nyrs yn Ysbyty'r Brifysgol, ar ei dyweddiad â Neil Johnson sy'n gweithio mewn banc. Dymunwn yn dda i'r ddau.

LLATAI I LATAI: Llongyfarchiadau calonnog i Daloni Roberts ar ei dyweddiad â Wiliam Noel Rees o Lanelli.

PRIODAS DDA: Dymunwn yn dda i Menna Richards a Patrick Hannan ar eu priodas yn ddiweddar.

PRIODI: Llongyfarchiadau hefyd i Michael Povey a Gwenda Powell ar eu priodas.

BABI: Llongyfarchiadau i Catrin a Gary Beard ar enedigaeth Mari Angharad. Does ryfedd yn y byd bod Taid a Nain, Kynric a Bethan Lewis, Llysfaen wedi gwirioni a Tadcu a mamgu yn y Bynea wedi dwlu!

DYRCHAFIAD: Llongyfarchiadau i Dr.David Williams, Cyncoed, ar ei apwyntiad i fod yn un o Arolygwyr ei Mawrhydi. Bydd David a Glesni, a'r plant Emyr, Ifor a Llinos, yn symud, yn y man, i Glwyd. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd.

PRIODAS DDA: i Adele Ander Griffiths a Nigel Jonathan Wills-Wood. Deintyddion yw'r ddau. Mae'r priodfab a'i ddau frawd a'i dad yn ddeintyddion - dyna rywbeth i gnoi cil arno!

LLONGYFARCHIADAU: i Gyngor Eglwysi Trelai ar godi `3,000 tuag at Gronfa Apel Newyn yn Affrica trwy drefnu taith gerdded noddedig ar hyd y ffordd newydd sy'n rhedeg drwy'r ardal.

YSGOLOR: Llongyfarchiadau i Mererid Davies ar ennill ysgoloriaeth Almaenig. Ar hyn o bryd mae Mererid yn Aberystwyth a bydd yn treulio'r flwyddyn academaidd nesaf yn Freiburg, a hi yw'r unig un o Gymru i ennill yr ysgoloriaeth hon ers dwy neu dair blynedd.

BEDYDD: Achlysur llawenydd yn y Tabernacl oedd bedydd un arall o ferched yr eglwys sy'n fyfyrwraig yn Aberyswyth, sef Rhian Williams, Croes Cwrlwys.

GWELLA: Dal i wella y mae'r Parch. D.R.Griffiths, Penarth, ar ol cael triniaeth yn Ysbyty'r Brifysgol. Yn ddiweddar mae nifer o'i gasgliad cyfoethog o emynau wedi eu canu am y tro cyntaf yn oedfaon Tabernacl.

MYND I FYNY: Llongyfarchiadau i Gareth Charles, llais cyfarwydd i wrandawyr CBC, ar ei benodiad i swydd is-olygydd newyddion yn y BBC yn ddiweddar.

# CYDYMDEIMLAD

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn â Mr.Gordon Davies, Heol Hendre, Rhiwbeina ar ei brofedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar.

COLLED: Cydymdeimlwn â Mrs. Eirwen Price, Yr Eglwys Newydd, ar ei phrofedigaeth o golli ei llysdad Mr.Merfyn Vaughan.

MARW: Cydymdeimlwn hefyd â Mr.Clifford Davies, Pantbach Road, ar ei golled fawr - bu farw ei briod Mrs.Vera Davies. Dymunwn iddo nerth i wynebu'r brofedigaeth.

BRYSIWCH WELLA: Gwellhad buan i H.Tudwal Davies, Cyncoed, sy'n treulio peth amser yr ur ysbyty. Da deall ei fod ar wella.

DIOLCH: Hoffai'r Dinesydd ddiolch i bawb o'n hysbysebwyr a wnaeth y rhifyn arbennig hwn yn bosibl. Gwerthfawrogwn eu cefnogaeth. Os hoffech chi hysbysebu yn y Dinesydd ffoniwch Lynn Jones ar Gaerdydd 562816.


# Gwasg Rydd

Mae Gwasg Rydd yn un o asiantau Cynllunio a Chysodi mwyaf blaengar Cymru. Gallwn gynnig:

- **Gwasanaeth Cynllunio cyflawn**
- **Cysodi mewn 61 o wahanol wynebau teip**
- **Gwasanaeth Cyfeillgar a Chymraeg**

Arbenigwn hefyd mewn defnyddio sustemau "PagePlanner", sy'n caniatau i'n cwsmeriaid gynllunio'u tudalennau'u hunain a chael gwaith celf gorffenedig yn syth o'n peiriannau. Mae'r sustem yma'n ddelfrydol ar gyfer cynhyrchu llyfrau a chylchgronnau. Gall arbed oriau o waith gludo diflas, a sicrhau cynnyrch hollol broffesiynol.

Am ragor o wybodaeth am sut y gall Gwasg Rydd eich cynorthwyo chi, cysylltwch â Siân Helen ar Gaerdydd 42403.




Argraffwyd gan Fingerprints (TU), Caerdydd. FP.1351